# Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** | **Bethan Davies** |
| Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2016 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.00 | 0300 200 6372 |
| | SeneddCyllid@cynulliad.cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.00) (Tudalennau 1 – 3)

**Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol – Penodi Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru – 14 Tachwedd 2016**

(Tudalennau 4 – 5)

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017–18: Trafod yr adroddiad drafft

(09.00) (Tudalennau 6 – 68)

Papur 1 – Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017–18 – Adroddiad drafft
Papur 2 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Papur 3 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Papur 4 – Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau at y Pwyllgor Cyllid
Papur 5 – Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu at y Pwyllgor Cyllid
Papur 6 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Papur 7 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

Papur 8 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Papur 9 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

## 11.00–11.10 – Egwyl

## 4 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

(11.10) (Tudalennau 69 – 93)

Papur 10 – Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Adroddiad drafft (penodau 1-4)

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Tachwedd 2016

Amser: 10. - 16.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3878

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Eluned Morgan AC<br>David Rees AC<br>Steffan Lewis AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru<br>Margaret Davies, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18: Sesiwn dystiolaeth 6

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol; Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr - Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru; ac Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr - Trysorlys, Llywodraeth Cymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfodydd ar 23 Tachwedd 2016, 1 Rhagfyr 2016 a 7 Rhagfyr 2016.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Amcangyfrif incwm a threuliau gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2017-18: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft â mân newidiadau.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyllid Troseddol

8.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid Troseddol, a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno.

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: PO111/EJ/BD
Ein cyf/Our ref: MD/05481/16

Elin Jones AM/AC
Assembly Member for Ceredigion
Presiding Officer
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

14 November 2016

Dear Elin,

Thank you for your letter of 8 November regarding the appointment of the chair of the Welsh Revenue Authority (WRA).

I welcome your positive response to my proposal and your view that a pre-appointment hearing for the WRA chair would be a matter for the Finance Committee.

As you note, having a pre-appointment hearing for a Ministerial appointment will be a new approach. My view is that having such a unique approach to the appointment of the WRA chair is very much in keeping with the status and governance arrangements of the WRA, which will be our first non-Ministerial Department.

In your letter, you ask about how I intend to take account of the outcome of the Committee hearing in making my final appointment decision.

I am mindful that the Finance Committee will want to consider how a pre-appointment hearing for the WRA Chair might impact upon their subsequent role in scrutinising the performance of the WRA and by extension the Chair. In the circumstances, I had seen a hearing in this case as providing an early opportunity for the Finance Committee to find out more about the preferred candidate's skills and experience, and to ask questions about the preferred candidate's priorities and approach on taking up the post. The Committee may for example wish to seek views on developing the WRA board and its governance capability. Importantly, a hearing would also provide an opportunity for the preferred candidate to understand the Assembly's expectation of the post-holder.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I mentioned in my previous letter I was looking to make early progress on the WRA chair appointment. It is my intention to advertise the opportunity shortly. I would like to mention in the appointment information pack the need for a preferred candidate to attend a pre-appointment hearing with the Finance Committee and to give an indication of the timing of this. Perhaps you and Simon Thomas could confirm whether you are both content for me to do that.

I intend to have reached a view on a preferred candidate before the end of February 2017 and therefore I would hope that a hearing could be held shortly afterwards.

I would welcome any further thoughts that you or Committee chairs might wish to offer on the pre appointment hearing for this specific appointment and would be happy to discuss the approach if you would find this helpful. In the meantime, I look forward to hearing from you.

Best wishes,

Mark.

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru

10 Tachwedd 2016

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18

Annwyl Mark,

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 3 Tachwedd i roi tystiolaeth ar gynigion ynghylch y gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

**Cyffredinol**

Nodwn mai cyfanswm y dyraniad ar gyfer y portffolio llywodraeth leol ar gyfer 2017-18 yw £3.405 biliwn, sy'n gynnydd o 1.5 y cant mewn termau arian parod o gymharu â 2016-17.

Gwnaethoch yn glir yn eich tystiolaeth bod y gyllideb ddrafft hon yn "anarferol" o ran osgoi toriadau i lywodraeth leol a'i bod yn annhebygol y bydd hyn yn digwydd eto ar ôl 2017-18, yn enwedig o ystyried y gostyngiad a ragwelir o 9 y cant mewn termau real yng nghyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru erbyn 2020. Gwnaethoch rybuddio hefyd y bydd dewisiadau ac amser anoddach o'n blaenau a bod rhaid defnyddio'r 18 mis nesaf mewn ffordd bwrpasol a thrylwyr i baratoi ar gyfer hyn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Er y gallai'r gyllideb ddrafft roi rhywfaint o seibiant, er ei fod yn gyfyngedig, mae'n annhebygol y bydd yn gwrthweithio'r heriau ariannol ehangach sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru. Rydym yn pryderu am y posibilrwydd o doriadau ariannu pellach a dyfnach yn y dyfodol ac effaith y rhain ar y sector ac ar ddarparu gwasanaethau. Croesawn eich ymrwymiad i gefnogi'r sector o ran cwrdd â'r heriau hyn. Wrth gynllunio ar gyfer y tymor hwy, nodwn eich bod yn parhau i ymgysylltu â llywodraeth leol ynghylch eich cynigion diwygio.

**Prif Grŵp Gwariant (MEG) Llywodraeth Leol**

Nodwn, o fewn y cynnydd cyffredinol yn y dyraniad ar gyfer y portffolio llywodraeth leol, fod Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer 'Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu' yn dangos gostyngiad net o £51 miliwn. Er ein bod yn deall y gallai hyn fod yn sgil newidiadau technegol a chyflwyniadol o fewn prif grŵp gwariant llywodraeth leol ac nad yw'n cyflwyno gostyngiad yng nghyfanswm cyllid yr heddlu a ddarparwyd o fewn y gyllideb ddrafft, **gofynnwn am eglurhad gennych ar y newid hwn. Yn ogystal, hoffem gael eglurhad manwl o ddiben ac effaith newidiadau i BEL 'Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu'.**

Mae'r gyllideb ddrafft yn dangos cynnydd o £82 miliwn mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (a wneir yn llwyr o dderbyniadau o Ardrethi Annomestig) o gymharu â 2016-17. Yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 19 Hydref 2016, awgrymwyd gennych fod y cynnydd mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn sgil y ffaith bod derbyniadau Ardrethi Annomestig yn y flwyddyn flaenorol wedi bod yn fwy na'r amcangyfrif. Gwnaethoch nodi bod hyn yn: “creates a pool that you can take forward and deploy next year”. **Hoffem gael eglurhad pellach gennych o ran a yw'r £82 miliwn yn cynnwys derbyniadau a gariwyd drosodd o 2016-17 ac, os felly, faint sy'n arian a gariwyd drosodd.**

**Setliad dros dro llywodraeth leol**

Mae'r gyllideb yn darparu'r cynnydd arian parod cyntaf yn setliad refeniw llywodraeth leol ers 2013-14, ac rydym yn croesawu hynny. Er bod y dyraniad cynyddol yn welliant ar y blynyddoedd blaenorol, bydd bron i hanner o'r awdurdodau yn dal i weld toriad termau arian parod yn eu dyraniadau. Mae hyn yn debygol o ychwanegu at heriau ariannol presennol a sylweddol sy'n wynebu'r awdurdodau hynny. I'r perwyl hwn, rydym yn falch bod y llawr cyllid wedi'i gadw ar gyfer 2017-18, sy'n golygu na fydd unrhyw awdurdod yn wynebu toriad yn ei ddyraniad o fwy na 0.5 y cant. Mae hynny wedi helpu i ddiogelu pedwar awdurdod rhag toriadau mwy difrifol nag y byddent yn eu hwynebu fel arall.

Pan ofynnwyd p'un a fyddai'r trefniadau llawr ariannu yn parhau ar ôl 2017-18, gwnaethoch ddweud wrthym eich yn bod yn fodlon edrych ar hynny fesul blwyddyn ond y byddai hynny'n dibynnu ar yr amgylchiadau bob blwyddyn. O ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu i "ddarparu cyllid i roi 'llawr' ar gyfer setliadau llywodraeth leol", **gofynnwn i chi am eglurhad pellach ar y mater hwn.**

**Dyraniadau ychwanegol o fewn y setliad**

Croesawn y dyraniad ychwanegol o £25 miliwn ar gyfer gofal cymdeithasol yr ydych wedi sicrhau ei fod ar gael drwy'r setliad. Mae hyn yn adeiladu ar y £21 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd drwy'r setliad yn 2016-17. Rydym yn cydnabod y posibilrwydd ataliol o fuddsoddi mewn gwasanaethau cymdeithasol, sy'n allweddol o ran sicrhau iechyd a lles rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau cynyddol ar wasanaethau cymdeithasol a'r angen i barhau i weithio gyda llywodraeth leol i sicrhau eu bod yn cael eu darparu'n effeithiol.

Pan ofynnwyd i chi sut rydych yn bwriadu monitro'r gwariant ychwanegol ar ofal cymdeithasol, gwnaethoch ddweud wrthym y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro hyn gan ei fod yn monitro popeth ac y byddai'n defnyddio systemau presennol, a oedd yn cynnwys casglu a monitro data awdurdod lleol. Gwnaethoch hefyd

ddweud wrthym mai mater i awdurdodau unigol yw penderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r dyraniad ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol, gan ystyried anghenion lleol. Er y croesewir unrhyw arian ychwanegol i lywodraeth leol, credwn ei bod yn hanfodol i sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i fonitro gwariant, canlyniadau a gwerth am arian yn y meysydd rydych wedi dewis dyrannu'r arian ychwanegol hwn. **Byddem yn croesawu manylion pellach gennych ar y system a ddefnyddiwyd i fonitro gwariant ar wasanaethau cymdeithasol ar y canlyniadau rydych yn disgwyl eu cyflawni o'r dyraniad ychwanegol o £25 miliwn ar gyfer gofal cymdeithasol yn 2017-18, a phryd rydych yn disgwyl gallu adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniadau hynny.**

Croesawn y cyllid ychwanegol sydd ar gael i lywodraeth leol o ganlyniad i'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, sef: £25 miliwn i helpu i ddarparu gwasanaethau hanfodol; £1 miliwn ar gyfer cludiant ysgolion; a £3 miliwn i helpu gyda chynlluniau peilot parcio ceir yng nghanol trefi. Deallwn y bydd yr arian hwn yn cael ei ddarparu drwy'r setliad ac felly ni fydd wedi'i neilltuo.

Gwnaethoch ddweud wrthym nad yw'r £25 miliwn ychwanegol ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol wedi'u dynodi at unrhyw ddiben penodol a'i fod yn rhan o'r arian y gellir eu darparu ar gyfer awdurdodau lleol. Cyfeiriwn at eich pwynt blaenorol ar fonitro gwariant a chanlyniadau. **Gofynnwn am eglurhad pellach ar y canlyniadau yr ydych yn disgwyl eu cyflawni o'r £25 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer gwasanaethau hanfodol. Byddem hefyd yn hoffi cael manylion am sut rydych yn bwriadu monitro gwariant a chanlyniadau.**

O ran y £3 miliwn ar gyfer cynlluniau peilot ar gyfer parcio ceir mewn canol trefi, nodwn mai un o nodau'r cynlluniau yw helpu i adfywio canol trefi ac i gefnogi busnesau bach. Roeddem yn falch o glywed eich bod yn bwriadu gweithio gydag awdurdodau i lunio rheolau a fydd yn llywodraethu'r defnydd o'r arian hwnnw ac y byddwch yn gallu monitro ei ddefnydd fel swm o arian atebol ar wahân. **Hoffem gael eglurhad gennych ar yr amserlenni arfaethedig ar gyfer datblygu a gweithredu'r cynlluniau. Hoffem hefyd gael manylion pellach ar sut rydych yn**

**bwriadu monitro gwariant a chanlyniadau a sut y bydd y canlyniadau hyn yn sail ar gyfer penderfyniadau ariannu yn y maes hwn yn y dyfodol.**

Gwnaethoch ddweud wrthym bod y £1 miliwn ychwanegol ar gyfer cludiant ysgolion yn cael ei ddarparu i helpu i wella penderfyniadau annymunol yr oedd yn rhaid i awdurdodau eu gwneud i ddarparu trefniadau cludiant ysgol ar yr isafswm a oedd yn ofynnol gan y gyfraith. Rydym yn cydnabod y bydd penderfyniadau o'r fath yn debygol o gael effaith andwyol ar deuluoedd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd i gael dau ben llinyn ynghyd. **Hoffem gael manylion pellach gennych ar sut rydych yn rhagweld y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r arian ychwanegol hwn i ddiogelu'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ac a ydych yn bwriadu darparu canllawiau i awdurdodau yn hyn o beth.**

### Diwygio llywodraeth leol

Gwyddom, yn y Cynulliad diwethaf, fod y prif ddadleuon a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ac eraill ar gyfer yr agenda ddiwygio yn canolbwyntio ar yr angen i fynd i'r afael â heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol, ac i wella trefniadau llywodraethu a darparu gwasanaethau. O ystyried hyn, gwnaethom ofyn i chi, wrth gynllunio ar gyfer diwygio yn y dyfodol, a ydych yn disgwyl lefel debyg o arbedion â'r hyn a amcangyfrifwyd yn y Bil Llywodraeth Leol drafft. Gwnaethoch ddatgan: “by working regionally in some key services, there will be some financial efficiencies that local authorities will be able to obtain” a “there are other resiliencies beyond the financial ones that will be gained by working in a more regional way”. Awgrymwyd gennych er y byddai cydweithio yn golygu effeithlonrwydd ariannol, gallent fod yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd ar gyfer uno.

Nodwn y bydd unrhyw gynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio yn golygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn nodi costau a buddion y cynigion hynny. Wrth gwrs, byddwn yn cymryd diddordeb brwd yn yr agenda ddiwygio wrth iddi ddatblygu, gan gynnwys goblygiadau ariannol i lywodraeth leol yn sgil y cynigion, yn benodol yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidebol parhaus sy'n wynebu'r sector.

Yn benodol, mewn perthynas â'r dyraniadau ar gyfer 2017-18, nodwn eich bod wedi sicrhau bod £5 miliwn ar gael ar gyfer 'Trawsnewid a Deddfwriaeth', y gwnaethoch ddweud wrthym y bydd yn cael ei ddefnyddio “to provide pump prime funding to support the reform agenda”. Gwnaethoch hefyd egluro y gellid defnyddio'r arian hwn i helpu awdurdodau i baratoi ar gyfer uno'n wirfoddol.

Er y bu cynnydd o £2.7 miliwn yn y dyraniad hwn o gymharu â 2016-17, rydym yn cwestiynu a fydd hyn yn ddigonol i alluogi awdurdodau i fuddsoddi mewn gweithgareddau trawsffurfiol fel datblygu gwasanaethau a rennir sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r diwygiadau, fel y rhagwelwyd gennych chi. Credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod yr awdurdodau hynny sy'n awyddus i wneud gwaith paratoi cyn y newidiadau deddfwriaethol a ragwelir, naill ai drwy gydweithio rhanbarthol neu uno'n wirfoddol, yn gallu cael gafael ar gyllid i helpu gyda hyn. **Gofynnwn am sicrwydd pellach gennych ar y mater hwn.**

Roeddem yn falch o allu trafod eich cynigion gyda chi ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn fwy cyffredinol. Edrychwn ymlaen at gynigion manylach gennych yn y Flwyddyn Newydd a byddwn yn eich gwahodd i roi tystiolaeth i ni ar y mater hwn maes o law.

**Llesiant cenedlaethau’r dyfodol**

Wrth esbonio'r dull a gymerwyd gennych i gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) i gyllideb llywodraeth leol, gwnaethoch ddweud eich bod yn derbyn yn llwyr bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo ond eich bod yn teimlo rhywfaint o hyder eich bod wedi dechrau arno'n briodol. Pan gawsoch eich holi, roeddech yn gallu rhoi enghreifftiau penodol o sut mae'r Ddeddf wedi dylanwadu ar eich penderfyniadau gwario, gan gynnwys Metro Caerdydd, bargen Dinas Caerdydd, a'r dyraniad ychwanegol o £25 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Rydym yn cydnabod mai dyma'r gyllideb ddrafft gyntaf ers i'r Ddeddf ddod i rym ac, yn hyn o beth, mae'n dal i fod yn ddyddiau cynnar. Wrth edrych i'r dyfodol, credwn fod yn rhaid i'r Ddeddf ddod yn rhan annatod o'r broses o bennu'r gyllideb

a'i defnyddio i helpu i wneud penderfyniadau gwario yn y dyfodol. Rydych wedi gwneud yn glir mai bwriad y Llywodraeth yw parhau i weithio tuag at y nod hwn a datblygu dull mwy soffistigedig yn y cyswllt hwn, a chawn rywfaint o sicrwydd o hyn. Nodwn eich bod wedi darparu tystiolaeth gyfyngedig yn y ddogfennaeth sy'n dod gyda'r gyllideb ac yn eich tystiolaeth ysgrifenedig i ddangos bod y Ddeddf yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar benderfyniadau cyllidebol. Er mwyn helpu i graffu ar gyllidebau yn y dyfodol, rydym yn awyddus i gael tystiolaeth fanylach gennych ar y mater hwn.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Cofion cynnes

John

John Griffiths AC

Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Llywodraeth Cymru

17 Tachwedd 2016

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18**

Annwyl Carl,

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 9 Tachwedd i roi tystiolaeth ar gynigion ynghylch y gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

**Adfywio**

Rydym yn pryderu ynghylch y gostyngiad sylweddol yn Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Adfywio cyfalaf o £62.6 miliwn yn 2016-17 i £14.9 miliwn yn 2017-18 (gostyngiad o tua 76 y cant) ac effaith bosibl hyn ar adfywio economaidd a lles ein cymunedau. Gwnaethoch ddweud wrthym, o ystyried y toriadau parhaus i gyllid cyffredinol gan Lywodraeth y DU, roedd yn rhaid gwneud penderfyniad anodd. Er ein bod yn nodi eich ymateb, **hoffem gael eglurhad pellach ar eich rhesymeg dros y penderfyniad hwn, yn enwedig gan fod y gostyngiad yn y dyfarniad mor fawr.**

Rydym yn pryderu o glywed y gallai gostyngiad yn Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Adfywio cyfalaf olygu na fydd rhaglen adfywio Llywodraeth Cymru, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, yn dychwelyd am ei hail gam, er gwaethaf ei

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

llwyddiant amlwg. **Hoffem i chi adrodd yn ôl i ni ar y mater hwn unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud. Byddem hefyd yn hoffi i chi ddarparu manylion am raglenni adfywio eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan eich penderfyniad i leihau Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Adfywio cyfalaf.**

Gwnaethoch ddweud wrthym er mwyn lliniaru'r gostyngiad y byddech yn gweithio gyda Bwrdd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio i sicrhau y bydd arian sydd yn y Gronfa ar hyn o bryd yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosibl fel cyfraniadau tuag at raglen adfywio. Gwnaethoch hefyd ddweud eich bod yn gobeithio gallu cynyddu dyfarniad Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Adfywio cyfalaf pe byddai rhagor o arian ar gael yn dilyn Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU. Er ein bod yn cydnabod eich ymateb, hoffem gael ymrwymiad cadarn gennych ar y mater hwn. Pe byddai canlyniad ffafriol yn sgil Datganiad yr Hydref, rydym yn eich annog i ystyried cynyddu dyfarniad Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Adfywio cyfalaf fel mater o flaenoriaeth. **Byddem yn hoffi i chi adrodd yn ôl i ni ar eich ystyriaeth o'r mater cyn gynted â phosibl ar ôl Datganiad yr Hydref.**

**Trechu tlodi**

*Cymunedau yn Gyntaf*

Nodwn y bu newidiadau strwythurol i'r Prif Grŵp Gwariant Plant a Chymunedau ers y gyllideb flaenorol, ac mae'r cyllidebau refeniw ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wedi eu cyfuno. Felly, nid yw'n bosibl nodi'r union ddyraniad ar gyfer Cymunedau yn Gynraf o gyllideb ddrafft 2017-18, y dogfennau cysylltiedig na'ch papurau chi i ni. **Hoffem gael eglurhad gennych ar eich dyraniad i Gymunedau yn Gyntaf ar gyfer 2017-18 a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio os byddwch yn dewis dirwyn y rhaglen i ben.**

Pan gawsoch eich holi ar ddyfodol Cymunedau yn Gyntaf, gwnaethoch nodi eich bod wrthi'n ymgynghori â rhanddeiliaid ac y byddwch yn gwneud datganiad pellach yn y Cyfarfod Llawn ar y mater hwn yn y flwyddyn newydd. Gan edrych ymlaen, os penderfynir dirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben, credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod elfennau o'r rhaglen sydd wedi gweithio'n dda ac sydd wedi

sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn eu cael eu cadw mewn unrhyw gynigion newydd. Arhoswn yn eiddgar am eich penderfyniad a byddwn yn eich gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod unrhyw gynigion pellach wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Gwnaethoch gadarnhau, waeth beth fydd eich penderfyniad ar Gymunedau yn Gyntaf, y byddech yn parhau i gyflwyno Rhaglen Esgyn a Chymunedau am Waith, fel y cynlluniwyd. **Hoffem gael eglurhad gennych ar y dyraniad ar gyfer Esgyn a Chymunedau am Waith o gyllideb ddrafft 2017-18 ac ar lefel yr arian Undeb Ewropeaidd ar gyfer y rhaglen yn 2017-18. Hoffem hefyd gael manylion am y canlyniadau a gyflawnwyd o'r rhaglenni hyn hyd yma, gan gynnwys nifer y cyfranogwyr sydd wedi sicrhau cyflogaeth, a'r canlyniadau rydych yn eu disgwyl o'r dyraniadau ar gyfer 2017-18.**

Dywedasoch eich bod wrthi'n ystyried cysyniad Parthau Plant, a oedd yn cynnwys dull aml-asiantaeth i helpu plant a phobl ifanc, a'ch bod yn bwriadu eu treialu unwaith y bydd y cysyniad wedi'i ddatblygu'n llawn. **Hoffem gael rhagor o fanylion gennych ar Barthau Plant wrth iddynt ddod i'r amlwg.**

*Diwygio lles*

Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft, awgrymodd Sefydliad Bevan y dylai'r gyllideb ystyried y posibilrwydd y gallai cyfrifoldeb dros anghenion gofal pobl hŷn, a oedd yn cael eu diwallu yn flaenorol drwy'r Lwfans Gweini, gael eu datganoli. Cafodd y mater hwn ei nodi gyda ni hefyd gan randdeiliaid fel rhan o'n trafodaethau ar ein blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad. Pan holwyd ynghylch y trefniadau ar waith i baratoi ar gyfer datganoli Lwfans Gweini, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn dal i aros am fanylion gan Lywodraeth y DU. **Hoffem i chi roi gwybod i ni am unrhyw ddatblygiadau pellach mewn cysylltiad â hyn.**

*Cynhwysiant ariannol*

Gwnaethom eich holi ynghylch cynnydd ar ddatblygu Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol i gefnogi'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, a sut y gwnaeth y Strategaeth ddylanwadu ar y gyllideb ar gyfer 2017-18. Gwnaethoch ddweud wrthym y byddai'r Strategaeth yn cael ei hariannu o'r dyraniad gwerth £20 miliwn o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cynhwysiant Ariannol, a fyddai'n cael ei defnyddio i helpu undebau credyd, gwasanaethau cynghori a'r Gronfa Cymorth Dewisol. **Hoffem gael eglurhad gennych ar faint o'r £20 miliwn yn 2017-18 rydych wedi'i ddyrannu'n benodol i helpu i weithredu'r Cynllun Cyflawni.** Edrychwn ymlaen at gyhoeddiad y Cynllun Cyflawni fis nesaf a byddwn yn cadw llygad barcud ar y cynnydd a wneir wrth weithredu'r Strategaeth.

*Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol*

Nodwn y gostyngiad sylweddol mewn dyraniad ar gyfer y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol o £10.95 miliwn yn 2016-17 i £2 miliwn yn 2017-18. Rydym yn ymwybodol mai nod y rhaglen yw datblygu a gwella cyfleusterau i gymunedau er mwyn trechu tlodi ac effaith hynny. Felly, rydym yn pryderu am effaith bosibl y gostyngiad ar rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. **Hoffem gael rhagor o fanylion gennych am y mathau o brosiectau yr oedd y rhaglen yn eu cefnogi a'r canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma. Rydym hefyd yn awyddus i gael manylion am unrhyw asesiad a gynhaliwyd o effaith y gostyngiad mewn dyraniad.**

**Diogelwch cymunedol**

*Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*

Rydym yn cydnabod bod y dyraniad cyffredinol ar gyfer Camau Cam-drin Domestig yn aros yn ddigyfnewid sef £5.4 miliwn ers 2016-17. O'r dyraniad hwn, sicrhawyd £330,000 ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021.

Yn eich tystiolaeth i lywio ein gwaith craffu ôl-ddeddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, dywedasoch eich bod yn bwriadu targedu adnoddau ychwanegol lle mae'r angen mwyaf i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau arbenigol yn y dyfodol. Er hynny, mae'r dyraniad ar gyfer 2017-18 yn parhau'n ddigyfnewid ers y flwyddyn flaenorol. Yna gwnaethoch ddweud wrthym, o ystyried y cyfyngiadau ariannol, nad oeddech yn gallu ymrwymo i arian ychwanegol. Gwnaethoch amlygu y byddai dyraniadau eraill ar gyfer polisïau a rhaglenni eraill, fel y Rhaglen Cefnogi Pobl ac atal digartrefedd, yn cael eu defnyddio i helpu i weithredu'r Ddeddf.

Credwn, os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni nodau'r Ddeddf yn llwyddiannus, ei bod yn hanfodol bod arian digonol ar gael i weithredu darpariaethau'r Ddeddf. Mae'n debygol, wrth i'r Ddeddf gael ei chymhwyso, y bydd cynnydd yn nifer yr adroddiadau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a allai arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau arbenigol. Rydym yn ymwybodol bod y sector eisoes wedi mynegi pryderon dybryd ynghylch ariannu gwasanaethau arbenigol ac effaith toriadau cyllid ar gynaliadwyedd y gwasanaethau hynny. Rydym yn pryderu, heb fynediad i wasanaethau arbenigol, y bydd y Ddeddf yn cael ei chael yn anodd i gyflawni ei photensial.

Ar y mater hwn, gwnaethoch ddweud wrthym y byddai'r Grŵp Cynghori diwygiedig Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn gwneud gwaith ar ariannu cynaliadwy hirdymor, a fyddai'n cynnwys asesu angen gwasanaeth a chostau cyflawni. **Byddem yn hoffi i chi adrodd yn ôl i ni ar ganfyddiadau Grŵp Cynghori VAWDASV cyn gynted â phosibl. Byddem hefyd yn hoffi i chi adrodd yn ôl ar sut rydych yn bwriadu defnyddio'r canfyddiadau hynny i wneud penderfyniadau ariannu yn y maes hwn yn y dyfodol.**

*Cyfiawnder ieuenctid*

Gwnaethom eich holi ar y pryder a nodwyd yn ein trafodaethau â chynrychiolwyr y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y gallai Llywodraeth Cymru dynnu arian yn ôl am wasanaethau ieuenctid os na fydd Bil Cymru yn datganoli cyfrifoldeb yn y maes hwn. Gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn pryderu ynghylch canlyniadau

posibl canfyddiadau adolygiad 'Review of the Youth Justice System' gan Lywodraeth y DU ar gyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, a gynhaliwyd gan Charlie Taylor. Roedd yr adolygiad yn edrych ar beth sy'n gweithio i atal trosedd ieuenctid ac adsefydlu troseddwyr ifanc; sut y gallai'r system cyfiawnder ieuenctid ryngweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau ehangach i blant a phobl ifanc; ac a yw'r modelau cyflawni a'r trefniadau llywodraethu presennol yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn sicrhau gwerth am arian. **Rydym yn awyddus i chi ymhelaethu ar eich pryderon ynghylch effaith Adolygiad Charlie Taylor ar gyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Byddem hefyd yn hoffi cael rhagor o wybodaeth am eich asesiad o effaith debygol penderfyniad gan Lywodraeth y DU i gadw cyfrifoldeb dros gyfiawnder ieuenctid ar wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru ac ar eich penderfyniadau ariannu yn y maes hwn yn y dyfodol.**

**Cyflenwad tai**

Yn ystod y sesiwn, gofynnwyd i chi am darged Llywodraeth Cymru i gyflenwi 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd yn ystod y Pumed Cynulliad ac ar y dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2017-18 i helpu i gyflawni hyn.

*Tai gwledig*

Gwnaethom nodi, mewn cyllidebau blaenorol, y bu dyraniad i helpu gyda gwaith Swyddogion Galluogi Tai Gwledig. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r cynigion ynghylch y gyllideb ddrafft na'ch tystiolaeth i ni p'un a wnaed unrhyw ddyraniad ar gyfer 2017-18, a **gofynnwn i chi am eglurhad ar y mater hwn.**

*Tai cynaliadwy*

Yn eich tystiolaeth, gwnaethoch bwysleisio pwysigrwydd dyluniad, lleoliad ac effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd os ydym am adeiladu cymunedau llwyddiannus a chynaliadwy. Felly roeddem yn pryderu o glywed tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg y gallai modelau newydd o dai gostio mwy i'w hadeiladu na thai traddodiadol, yn y byr dymor o leiaf. Dywedasoch eich bod yn anghytuno â'r dystiolaeth hon ac eisoes wedi comisiynu gwaith ymchwil ar fodelau newydd o dai

a fydd yn mynd i'r afael a rhai o'r heriau allweddol a wynebwn gan gynnwys tlodi tanwydd, allyriadau carbon a newid hinsawdd. **Hoffem i chi adrodd yn ôl i ni ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn a sut y bydd yn sail i unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ar ddarparu modelau newydd o dai.**

*Cymorth i Brynu*

Nodwn fod dros £103 miliwn o gyllid trafodion ariannol yn cael ei ddyrannu ar gyfer Cam 2 y cynllun Cymorth i Brynu a chynlluniau eraill yn 2017-18. Er mwyn egluro, gwnaethoch ddweud wrthym fod y cynllun Cymorth i Brynu yn helpu i ddatblygu a phrynu eiddo newydd sbon sy'n costio hyd at £300,000. Nod y cynllun yw helpu gyda pherchnogaeth cartref a chyrraedd targed tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru.

Pan holwyd chi am y trothwy o £300,000, dywedasoch fod y trothwy ar gyfer y cynllun cyfatebol yn Lloegr ddwbl hynny, sef £600,000, a'ch bod wedi cael cyngor gan y sector tai cyn pennu'r trothwy. Gwnaethoch hefyd ddweud bod y gwerthusiad interim o'r cynllun wedi dangos, hyd yma, bod y cynllun wedi'i ddefnyddio i helpu i ddatblygu a phrynu nifer o eiddo a oedd yn llawer is na'r trothwy o £300,000. **Rydym am i chi ddarparu rhagor o fanylion am y pwynt hwn.**

Rydym yn cwestiynu a yw £300,000 yn drothwy priodol yng Nghymru, yn enwedig o ystyried nod y cynllun. Credwn ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru sicrhau, wrth flaenoriaethu dyraniadau ar gyfer tai fforddiadwy, y gall dangos gwerth am arian. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried cyfyngiadau cyllidebol presennol. **Rydym yn awyddus i chi barhau i adolygu'r trothwy o £300,000 ar gyfer y cynllun Cymorth i Brynu ac adrodd yn ôl i ni ar unrhyw ystyriaethau pellach ar y mater hwn, yn enwedig yn sgil yr adroddiad interim a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016.**

Nodwn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun Rhentu i Brynu a **hoffem i ni chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fanylion y cynigion wrth iddynt ddod i'r amlwg.** Yn y cyfamser, **hoffem i chi gadarnhau pryd rydych yn disgwyl dechrau ar y cynigion hynny.**
**Byw'n Annibynnol**

Nodwn fod addasiadau i'r cartref yn cael eu hariannu o nifer o ddyraniadau cyllideb gwahanol, ac rydym wedi dwyn eich sylw eisoes am bryderon ynghylch monitro perfformiad.  Rydym yn cydnabod y camau a gymerwyd i wella hyn a byddem yn **croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a wnaed tuag at weithredu fframwaith monitro perfformiad mwy cadarn.**

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Cofion cynnes

John Griffiths AC
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**National Assembly for Wales**
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor Cyllid

**Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18**

Ar 3 Tachwedd 2016, fel rhan o'n gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18, cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau sesiwn holi gyda'r Ysgrifennydd Cabinet dros y Seilwaith a Sgiliau a'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth.

Ysgrifennaf i dynnu eich sylw at nifer o'r prif faterion.

**Chwyddiant**

Clywsom gan y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol mai tua 2-3% oedd y rhagdybiaethau ar gyfer chwyddiant yn y gyllideb. Cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd ragolwg ar ddydd Iau 3 Tachwedd yn awgrymu y gallai chwyddiant godi i 4% erbyn diwedd 2017. Er mai 4% yw'r ffigur a ragwelir, mae'n arferol i gyfraddau chwyddiant fod yn wahanol, ac o bosibl yn uwch, ar gyfer sectorau gwahanol.

Yn y portffolio seilwaith mae sawl prosiect buddsoddi mawr aml-flwyddyn – y mwyaf nodedig o'r rhain yw ffordd liniaru'r M4 a Metro De Cymru – a gallai costau'r prosiectau hyn godi'n sylweddol, pe bai chwyddiant yn codi'n sydyn ar ôl cyfnod hir o fod ar lefel hanesyddol isel.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

Er bod cynnydd o 1-2% mewn chwyddiant yn y flwyddyn ariannol 2017-18 yn debygol o fod yn anodd, gall portffolio'r economi a seilwaith ymdopi ag ef, ond pe bai'r gyfradd yn codi'n uwch yn y blynyddoedd i ddod, byddai'n effeithio'n sylweddol ac yn negyddol ar gostau hirdymor prosiectau gwerth miliynau o bunnoedd. Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn cydnabod y perygl a geir yn sgil chwyddiant cynyddol, nid yn unig i'r gyllideb, ond i'w holl nodau polisi.

Nodwn hefyd nad ar y portffolios sy'n dod o dan ein cylch gwaith un unig y byddai cyfraddau chwyddiant uwch yn effeithio; mae hefyd risg posibl i bob maes o weithgarwch y Llywodraeth yn y blynyddoedd i ddod.

Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am sut y mae'r adran yn modelu effaith bosibl chwyddiant uwch.

**Proses y gyllideb**

Ym mis Gorffennaf 2016, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi "mwy o dystiolaeth yn y dyfodol sy'n nodi'r rhesymeg y tu ôl i ddyraniadau'r gyllideb, gan gynnwys manylion am yr effaith economaidd a ragwelir." Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

Fodd bynnag, yn y 10 tudalen ar gyfer y gyllideb gyfan yn asesiad effaith strategol eleni, nid oes ond un cyfeiriad at ardaloedd menter, a dywed hwnnw: "research has shown that area based initiatives, like enterprise zones, can have positive impacts on employment and regional GDP." Mae hwn yn un o'r cyfeiriadau at bortffolio'r economi a seilwaith a wnaed heb resymeg sy'n seiliedig ar y dystiolaeth y gofynnodd y Pwyllgor Cyllid amdani, ac a gytunwyd gan y Llywodraeth. Mewn ymateb i'n cwestiynau, nododd y Gweinidog nad oedd mesur canlyniadau economaidd yn wyddor fanwl - a gwir y gair. Ond er mwyn i eraill asesu a yw'r blaenoriaethau a ddewiswyd yn rhesymol, ac a yw'r allbynnau disgwyliedig yn rhoi gwerth am yr arian cyhoeddus a fuddsoddwyd, mae'n hanfodol bod mwy o ymdrech yn cael ei gwneud o ran rhannu'r gwaith meddwl a'r dystiolaeth sy'n sail i benderfyniadau gwariant y Llywodraeth. Mae'r gwaith

meddwl hwnnw weithiau i’w ganfod mewn mannau eraill (cawsom enghraifft yn adroddiad blynyddol Cyllid Cymru), felly dylid ei gynnwys yn naratif y gyllideb.

**Mesur allbynnau a chanlyniadau**

Mae hefyd waith i’w wneud i sicrhau bod allbynnau a chanlyniadau’n ystyrlon a bod modd eu mesur. Yn yr economi bresennol, gyda chyflogaeth yn uwch nag erioed, nid ‘swyddi a grëwyd’ bob amser yw’r mesur mwyaf effeithiol o lwyddiant o reidrwydd, na’r mwyaf dewisol ychwaith, yn enwedig os nad yw’r swyddi hynny yn rhai sy’n denu’r gweithlu lleol nac yn cyfateb yn dda i’w sgiliau. Yn yr un modd, mae’n bosibl bod busnesau yn ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru i gynyddu eu cynhyrchiant a chodi eu hallbwn, ond heb ddymuno creu swyddi na chyflogi staff ychwanegol yn y broses.

Dylid adlewyrchu realiti’r economi bresennol bob tro yn y cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ac yn y dangosyddion a ddefnyddir i fesur llwyddiant.

Yn ein trafodaeth â’r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, nododd bod angen ystyried ei llinellau cyllideb ar gyfer arloesi, er enghraifft, yn y tymor hwy er mwyn gwerthuso adenillion ar fuddsoddiad o gymharu â grant syml ar gyfer creu swyddi.

Mae’n hanfodol bod y gwaith parhaus i ddatblygu strategaeth economaidd newydd yn cynnwys ymdrech i sicrhau bod modd rhagweld yn fwy effeithiol y canlyniadau a fydd yn codi o ganlyniad i fuddsoddiad Llywodraeth Cymru a’u mesur wedyn. Yn y ffordd hon, byddai’n bosibl cynnal gwaith craffu gwirioneddol effeithiol ar y penderfyniadau sydd y tu ôl i’r dyraniadau yn y gyllideb, ac effaith net y buddsoddiad hwnnw. Bydd hyn yn ei gwneud yn gliriach lle mae’r cynlluniau’n aflwyddiannus.

**Themâu trawsbynciol**

Mae'r Llywodraeth newydd wedi pennu blaenoriaeth uchel ar natur drawsbynciol portffolios a chyfrifoldebau'r Llywodraeth. Mae'r symud ymaith o'r ffordd o weithio mewn seilo sydd wedi nodweddu'r Llywodraeth ar bob lefel i'w groesawu.

Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb gyfredol wedi cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n cyfleu effaith y themâu trawsbynciol hyn yn dda iawn. Nac ychwaith lle mae cyllidebau adrannol lluosog yn cyfrannu at ddyheadau (e.e. teithio llesol, lle y gallai gwariant ym mhortffolios iechyd, llywodraeth leol neu'r economi a seilwaith gyfrannu at lwyddiant wrth weithredu'r Ddeddf teithio llesol.)

Yn ei chyllideb ei hun, ni allem yn hawdd ganfod cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru ar sgiliau ei staff ei hun, er enghraifft. Ac ni allem ddweud faint a wariwyd ar ymchwil a datblygu.

**Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Er i'r ddau Weinidog nodi'n glir yn eu hymatebion i'r Pwyllgor fod yr egwyddorion o ran cenedlaethau'r dyfodol wedi cael eu hymgorffori yn eu holl benderfyniadau, nid oedd yn glir i ni sut yr oedd hyn yn cael effaith ar benderfyniadau cyllidebol, nac ychwaith beth - os unrhyw beth - oedd wedi newid o ganlyniad. Pan ofynnwyd am enghraifft benodol, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith at barhau i ariannu Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau (BSSG) gyda £25 miliwn.

Mae'r gronfa hon wedi'i bennu ar £25 miliwn er 2013-14 - ymhell cyn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddod yn gyfraith.

Er i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nodi ei bod yn disgwyl i effaith y Ddeddf ar gyrff cyhoeddus gynyddu dros amser - gan gynnwys yr effaith ar Lywodraeth Cymru - nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw'r fframwaith newydd yn cael ei defnyddio i herio'r status quo, neu i gyfiawnhau penderfyniadau a gymerwyd o'r blaen.

Cododd ein trafodaeth nifer o faterion penodol eraill, a byddwn yn codi'r rhain, ac yn eu monitro, gyda'r Gweinidogion perthnasol yn ein gwaith craffu rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Yn gywir



Russell George AC

Cadeirydd

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

16 Tachwedd 2016

Annwyl Simon

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18**

***Cylch gwaith y Pwyllgor***

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn gyfrifol am graffu ar wariant Llywodraeth Cymru ar ddiwylliant, y celfyddydau, yr amgylchedd hanesyddol, y Gymraeg, cyfathrebu, darlledu a'r cyfryngau.

***Y Gweinidogion sy'n gyfrifol a gwaith craffu***

O fewn Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi a'r Seilwaith, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn gyfrifol am gyllid o ran y celfyddydau, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, y cyfryngau a chyhoeddi a'r amgylchedd hanesyddol a naturiol.

O fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg, mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn gyfrifol am gyllid o ran y Gymraeg, gyda chylch gwaith penodol ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, ariannu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a chyllid i gefnogi'r gwaith o weithredu Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

Roedd y ddau Weinidog yn bresennol yn ein cyfarfod ar 2 Tachwedd i ateb cwestiynau'r Aelodau.  Cyn hynny, darparodd y ddau Weinidog Femorandwm i'r

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565

Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2017-18 mewn perthynas â'u cyfrifoldebau ariannu penodol. Mae copi o'r ddau femorandwm ynghlwm er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

### *Crynodeb o'r Ddarpariaeth Sylfaenol a Chynigion y Gyllideb*

<u>Diwylliant (Refeniw)</u>

Yn 2016-17, darperir cyfanswm o £81.3 miliwn o refeniw sylfaenol yn y meysydd hyn (ynghyd â £3 miliwn o wariant a reolir yn flynyddol [AME]). Cynigir y dylai hyn gynyddu £2.9 miliwn i £84.5 miliwn (ynghyd â £3 miliwn o wariant a reolir yn flynyddol) yn 2017-18.

<u>Diwylliant (Cyfalaf)</u>

Darperir £9.3 miliwn o gyfalaf sylfaenol yn 2016-17. Cynigir y dylai hyn gynyddu £9.5 miliwn i £18.7 miliwn yn 2017-18, yna disgyn £12.8 miliwn (i £5.9 miliwn) yn 2018-19, disgyn £0.3 miliwn (i £5.6 miliwn) yn 2019-20 cyn cynyddu £1.6 miliwn (i £7.2 miliwn) yn 2020-21.

<u>Y Gymraeg</u>

Darperir cyfanswm o £25.6 miliwn o refeniw sylfaenol ar gyfer y Gymraeg. Cynigir y dylai hyn gynyddu £10.6 miliwn i £36.1 miliwn. Ni ddarperir unrhyw arian cyfalaf.

### *Barn gyffredinol y Pwyllgor ar gynigion y gyllideb*

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd cyffredinol yn y cyllidebau ar gyfer portffolios y ddau Weinidog. Mae'n werth nodi'r cynnydd arian parod yn 2017-18 mewn cyllid cyfalaf yn y portffolio diwylliant o dros 100 y cant a'r cynnydd arian parod o dros 40 y cant yng nghyllideb y Gymraeg, er ei bod yn ymddangos bod trosglwyddiadau syml o gyllid presennol oddi mewn i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cyfrif am ran helaeth o'r ail gynnydd. Ar ôl cymryd hynny i ystyriaeth, mae'r cynnydd gwirioneddol mewn arian parod tua 19 y cant, sy'n gynnydd sylweddol serch hynny.

Mae'r cynnydd o dros 3.5 y cant yn y gyllideb refeniw ar gyfer diwylliant i'w groesawu'n fawr, yn enwedig o ystyried y pwysau cyffredinol ar y gyllideb.

***Materion penodol sy'n codi yn sgil craffu ar waith y Gweinidogion***

Diwylliant

*Cadw – Rhaglen gyfalaf a tharged o ran incwm*

Mae cyllideb gyfalaf Cadw yn cynnwys gostyngiad arfaethedig o £1.5 miliwn, o linell sylfaen 2016-17, sef £4.8 miliwn, i £3.3 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2017-18. Mae hynny'n ostyngiad o 32 y cant mewn termau arian parod.

Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet y gellid gwrthbwyso'r gostyngiadau yn y gyllideb gyfalaf yn rhannol drwy'r incwm ychwanegol y gofynnwyd i Cadw ei gynhyrchu (mae gan Cadw darged i gynhyrchu incwm o £6.2 miliwn ar gyfer 2016-17). Er y câi'r incwm ychwanegol hwn ei gynhyrchu fel refeniw, byddai ar gael i gefnogi rhaglenni refeniw a chyfalaf. Rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y targed ar gyfer cynhyrchu incwm yn 2017-18.

Rydym yn pryderu am lefel y gostyngiad gan fod hon eisoes yn rhaglen gyfalaf gymharol fach. Rydym hefyd yn pryderu am y posibilrwydd y gallai adnoddau gael eu cyfeirio i safleoedd sy'n gymharol fwy llwyddiannus wrth gynhyrchu incwm ar draul safleoedd sydd o bosibl yn llai 'poblogaidd'. Mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd yr incwm ychwanegol y disgwylir i Cadw ei gynhyrchu yn gwrthbwyso'r gostyngiad yn llawn a nododd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd o leiaf ran ohono yn cael ei ychwanegu at wariant refeniw yn hytrach na gwariant cyfalaf.

Rydym wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet yn gofyn iddo nodi'n fanylach faint o'r incwm a gynhyrchir gan Cadw ei hun a gaiff ei ailgylchu i gefnogi gwaith Cadw yn ogystal â dadansoddiad o sut y caiff yr incwm hwn ei wario eleni a'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Byddwn yn cyhoeddi ymateb Ysgrifennydd y Cabinet pan ddaw i law.

At hynny, nid yw'n hollol glir beth fydd yr effaith ar Cadw os yw'n methu â bodloni'r targed o ran cynhyrchu incwm. Rydym hefyd wedi gofyn am sicrwydd y

bydd yr holl incwm ychwanegol a gynhyrchir gan Cadw yn cael ei neilltuo a'i ddefnyddio i gefnogi gwaith Cadw. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet am y pwyntiau hyn a byddwn yn cyhoeddi ei ymateb.

*Cyngor Celfyddydau Cymru – cynhyrchu incwm*

Caiff cyllid ar gyfer y celfyddydau ei sianelu'n bennaf drwy Gyngor Celfyddydau Cymru: £31.2 miliwn o refeniw o'r £31.7 miliwn a ddyrennir i'r maes hwn yn y gyllideb ddrafft. Mae cyllid refeniw yn y maes hwn wedi cynyddu 3.5 y cant mewn termau arian parod o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2016-17. Mae'r cynnydd hwn i'w groesawu yn dilyn blynyddoedd o doriadau.

Er gwaethaf y cynnydd hwn yng nghyllid Cyngor y Celfyddydau, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn i'r Cyngor "*gyflymu ei waith i helpu ei sefydliadau portffolio, a'r sector ehangach, i gynyddu'r incwm a gynhyrchir ganddynt*". Yn ei dystiolaeth, amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dargedau uchelgeisiol i'r sefydliadau a gefnogir gan y Cyngor Celfyddydau o ran cynhyrchu mwy o incwm.

Mae gan y Cyngor Celfyddydau darged i gynyddu 20 y cant ar werth yr incwm i'r celfyddydau yng Nghymru o'r sector preifat rhwng 2015 a 2018. Yn y tymor hwy, amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet ei farn y dylai tua thraean o incwm sefydliadau diwylliannol gael ei gynhyrchu ganddynt hwy eu hunain, tra bod y Llywodraeth yn darparu traean (drwy'r Cyngor Celfyddydau) a thraean arall yn dod o godi arian, rhoddion elusennol ac ati.

Yn debyg i Cadw, nid yw'n hollol glir beth fydd yr effaith ar Gyngor Celfyddydau Cymru os byddant yn methu â bodloni'r targed o ran cynhyrchu incwm. Mae'n rhaid i ni hefyd fynegi rhywfaint o amheuaeth ynghylch a yw'r model ariannu 'tri thraean' yn realistig yng nghyd-destun Cymru gan iddi brofi'n anodd yn y gorffennol denu'r un graddau o gyllid dyngarol â rhannau cyfoethocach o'r DU.

Unwaith eto, rydym hefyd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet a byddwn yn cyhoeddi ei ymateb.

Y Gymraeg

*Llinell Wariant y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg*

Mae'r holl wariant cynyddol ar y Gymraeg wedi'i gynnwys yn y llinell wariant hon, sy'n cynyddu £10.6 miliwn.  Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, trosglwyddiadau syml rhwng cyllidebau yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg sy'n cyfrif am £5.7 miliwn o'r cynnydd ymddangosol hwn.

Mae'r trosglwyddiad yn cynnwys y symiau a ganlyn:

- £5.4 miliwn ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. (I fod yn glir, efallai y bydd y Pwyllgor Cyllid am argymell y dylid nodi'r llinell gyllid hon ar wahân yn y gyllideb derfynol gan fod iddi ddiben penodol iawn sydd rhywfaint yn wahanol i weddill llinell wariant y gyllideb.);
- £0.5 miliwn o Gam Gweithredu'r Safonau Addysg i gefnogi defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc; a
- £0.2 miliwn **i'r** Cam Gweithredu Cymwysterau ar gyfer arholiadau Cymraeg i Oedolion.

Mae yna hefyd ostyngiad o £0.15 miliwn yn llinell wariant y gyllideb. Defnyddir arbedion amhenodol i dalu'r diffyg.

Mae hynny'n gadael £4.85 miliwn yn ôl Memorandwm y Gweinidog (paragraff 14) i gefnogi '*datblygiad pellach Cymraeg i Oedolion, ac yn arbennig y ddarpariaeth o gyrsiau Cymraeg ar gyfer y gweithle, gyda'r hyn sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio i gefnogi mentrau eraill sy'n hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg*'.  Gwneir penderfyniad ynghylch sut y defnyddir y cyllid hwn yn unol â blaenoriaethau'r Strategaeth Gymraeg newydd, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Disgrifir y £4.85 miliwn a'r gostyngiad o £0.15 miliwn gyda'i gilydd fel '*£5 miliwn ychwanegol yn 2017-18 sydd wedi ei ddyrannu o ganlyniad i gytundeb ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru.*' Mae braidd yn gamarweiniol honni bod £5 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r llinell wariant hon. Y swm ychwanegol yw £4.85 miliwn.  Efallai bod y Llywodraeth yn bwriadu gwario £5 miliwn, ond ni fydd modd

iddi wneud hynny oni wneir gostyngiadau mewn rhannau eraill o'r gyllideb. Byddai'n well pe bai hyn yn cael ei nodi'n glir yn y gyllideb.

Beth bynnag fydd lefel y cyllid ychwanegol (yr ydym yn derbyn y bydd yn arwyddocaol) rydym yn pryderu nad yw'n glir nac wedi'i ddiffinio'n briodol ar hyn o bryd sut y caiff y cyllid hwnnw ei ddefnyddio. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd y Strategaeth Gymraeg newydd yn llywio penderfyniadau gwariant maes o law ac mai rhoi'r cart o flaen y ceffyl, i ryw raddau, fyddai gwneud penderfyniadau cadarn cyn penderfynu ar y strategaeth derfynol.

Serch hynny, nid yw'n afresymol disgwyl y dylid cael mwy o eglurder ynglyn â'r opsiynau posibl ar gyfer defnyddio'r arian hwn cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r gyllideb derfynol. Dylai hyn gynnwys asesiad clir o'r amcanion ar gyfer sut y bydd y cyllid newydd yn cefnogi gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (a faint o'r cyllid hwnnw a ddefnyddir i wneud hynny), yn ogystal â'r broses werthuso ar gyfer mesur llwyddiant y gwariant newydd hwn.

Wrth ymateb i gwestiynau awgrymodd y Gweinidog hefyd y gellid defnyddio rhywfaint o'r arian hwn i sefydlu asiantaeth newydd ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, neu i greu swyddogaeth debyg mewn corff sy'n bodoli eisoes. Unwaith eto, nid oes unrhyw fanylion. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog wedi nodi ei fwriad i ysgrifennu at y Pwyllgor pan fydd mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau ar hyn, ac mae'n gobeithio y bydd hynny'n digwydd cyn rhoi'r gyllideb derfynol gerbron y Cynulliad ym mis Rhagfyr.

*Cyllideb Comisiynydd y Gymraeg*

Lleihawyd cyllideb y Comisiynydd 10 y cant y llynedd a gwnaed toriadau i'w chyllideb o flwyddyn i flwyddyn sy'n gyfwerth â gostyngiad arian parod o 25 y cant dros y 4 blynedd diwethaf. Fodd bynnag, darparwyd swm ychwanegol anghylchol o £150,000 i'r Comisiynydd y llynedd er mwyn '*sicrhau ei bod hi'n gallu gwneud y gwaith y mae'n rhaid iddi ei wneud ar hyn o bryd*', fel yr eglurodd y Gweinidog.

Nid yw'r gyllideb ddrafft yn cynnig unrhyw gynnydd yn 2017-18, gan barhau i nodi swm o £3.0 miliwn. Os nad yw'r Comisiynydd yn gallu bodloni'i holl

gyfrifoldebau ar hyn o bryd, rydym yn credu y gellid dadlau bod angen am ryw lefel o adnoddau ychwanegol.

Pan holwyd y Gweinidog am hyn, fe'i gwnaeth yn glir nad yw'r Comisiynydd wedi gwneud unrhyw gais am gynnydd yn ei chyllideb. Fodd bynnag, ar ôl i'r Gweinidog ddod gerbron y Pwyllgor, cysylltodd swyddfa'r Comisiynydd â ni gan ddweud mewn e-bost:

> *'Yn dilyn y drafodaeth ar gyllideb y Gymraeg yn y Pwyllgor Diwylliant heddiw, dyma neges ar ran y Comisiynydd i egluro ein amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2017/18.*
>
> *Anfonwyd amcangyfrif ariannol y Comisiynydd ar gyfer 2017/18 at y Llywodraeth ar 6 Hydref. Mae dyletswydd statudol arnom i anfon yr amcangyfrif at y Llywodraeth o leiaf bum mis cyn y flwyddyn ariannol perthnasol.*
>
> *Cyllideb y Comisiynydd ar gyfer 2016/17 oedd £3,051,000. Yn yr amcangyfrif gwnaeth y Comisiynydd gais am £150,000 ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf. H.y. £75,000 yn ychwanegol ar gyfer 2017/18, sef cyllideb o £3,126,000.*
>
> *Gallaf gadarnhau felly bod y Comisiynydd wedi gwneud cais am fwy o arian ar gyfer 2017/18.*
>
> *Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd i chi egluro hynny wrth y Pwyllgor.'*

Mae'n amlwg bod rhywfaint o ddryswch rhwng yr hyn a ddywedwyd wrthym gan y Gweinidog a'r hyn yr ydym wedi cael gwybod ers hynny gan y Comisiynydd. Mae'r symiau dan sylw yn gymharol fach, ond rydym yn pryderu nad oedd yn ymddangos bod y Gweinidog yn gwybod am y cais hwn am gyllid ychwanegol.

Rydym wedi ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am eglurhad pellach a byddwn yn cyhoeddi ei ymateb pan y'i derbynnir.

*Cyllid o fewn Portffolios Gweinidogion eraill*

Yn ogystal â'r cyllid y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdano, nododd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn ei Femorandwm (para 25) nifer o feysydd o gyllid dynodedig â'r nod o gefnogi'r iaith Gymraeg a darparu gwasanaethau Cymraeg, y mae Gweinidogion eraill yn gyfrifol amdanynt.

Dylid nodi hefyd bod swm sylweddol o wariant i gefnogi Diwylliant a'r Gymraeg yn cael ei ariannu yn anuniongyrchol drwy rannau eraill o'r gyllideb. Er enghraifft, mae rhan sylweddol iawn o'r gwariant sy'n cefnogi darpariaeth iaith Gymraeg mewn addysg yn mynd i awdurdodau lleol drwy'r grant cynnal refeniw (RSG). Gan fod yr iaith Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio ar draws portffolios Gweinidogion, bydd cyllidebau eraill hefyd yn helpu i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'u datblygiad ond efallai na fydd hynny'n gwbl weladwy. Mae cymorth ariannol i agweddau ar y celfyddydau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd hefyd yn cael ei wario gan awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn natur prif ffrwd llawer o wariant y Llywodraeth ar y Gymraeg yn benodol. Nid yw'r Pwyllgor yn galw am gyfrif y gwariant arall hwn ar wahân. Byddai gwahanu gwariant yn y modd hwn yn ôl pob tebyg yn anymarferol, yn llyncu amser ac ni fyddai fodd bynnag, mae'n debyg, yn rhoi darlun llawn a chywir o'r gwariant cyffredinol .

Serch hynny, mae'r sefyllfa yn werth ei nodi ac efallai y bydd y Pwyllgor Cyllid am ystyried a allai gwaith craffu ar y gyllideb gan Bwyllgorau eraill y Cynulliad roi rhagor o wybodaeth am wariant sy'n cefnogi Diwylliant a'r Gymraeg.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ken Skates ac Alun Davies er gwybodaeth.

Yn gywir

Bethan Jenkins

**Bethan Jenkins AC, Cadeirydd**

Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Tachwedd 2016

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 2 Tachwedd 2016 i drafod cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18. Gwnaethoch gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu rhagor o wybodaeth, a hefyd mae un neu ddau o feysydd y byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael eglurhad pellach yn eu cylch.

*Cadw - Rhaglen Gyfalaf*

Gwnaethoch gadarnhau na fyddai dim lleihad o ran y rhaglen gwariant cyfalaf arfaethedig o ganlyniad i'r toriad yn y gyllideb cyfalaf, ac y byddai incwm a godir yn safleoedd Cadw yn cael ei ddefnyddio i sicrhau'r gwariant cyfalaf hwnnw. Dywedasoch y byddech yn ysgrifennu i nodi pa safleoedd Cadw a fyddai'n elwa o waith arian cyfalaf dros y pedair blynedd nesaf, i gadarnhau na fyddai dim lleihad i'r gwariant a gynlluniwyd ac, ymhellach, i nodi pa waith ychwanegol a gaiff ei wneud mewn safleoedd os caiff rhagor o incwm eto ei greu a'i ddyrannu ar gyfer gwariant cyfalaf gan Cadw.

*Cadw - Creu Incwm*

Nid yw'n gwbl glir beth fydd yr effaith ar Cadw os bydd yn methu â chyrraedd ei darged ar gyfer creu incwm. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael gwybod sut y gwneir iawn am unrhyw ddiffyg os na chyrhaeddir y targedau, ac o gael sicrwydd y

bydd unrhyw incwm ychwanegol a gynhyrchir gan Cadw wedi cael ei neilltuo, fel y caiff ei ddefnyddio i gefnogi gwaith Cadw. Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am:

- y graddau y cafodd incwm ychwanegol a grëwyd gan Cadw yn y blynyddoedd blaenorol ei neilltuo ar gyfer ei ddefnyddio gan Cadw;
- dadansoddiad o sut y defnyddiwyd incwm a grëwyd gan Cadw ei hun yn y flwyddyn ariannol gyfredol; ac
- yr incwm targed ar gyfer 2017-18 yn ogystal â'r bwriad o ran sut y dylai'r incwm hwn gael ei ddefnyddio.

*Cyngor Celfyddydau Cymru – Creu Incwm*

Fel yn achos Cadw, nid yw'n gwbl glir beth fydd yr effaith ar Gyngor y Celfyddydau os bydd yn methu â chyrraedd ei darged ar gyfer creu incwm. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar i gael gwybod sut y bydd unrhyw ddiffyg yn cael ei dalu os na chyrhaeddir y targedau.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor hefyd braidd yn amheus ynghylch a yw'r model ariannu 'tri thraean' (h.y. cael arian o gyllid cyhoeddus, cynhyrchu incwm a ffynonellau haelioni, fel traean o bob un) yn realistig yng nghyd-destun Cymru, oherwydd yn hanesyddol, bu'n fwy anodd denu cyllid haelioni i'r un graddau ag yw mewn rhannau mwy cyfoethog o'r DU. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o glywed eich barn am hyn, a beth yw'r cynlluniau ar gyfer symud yn nes at fodel o'r fath.

*Adolygiad Arbenigol o Amgueddfeydd*

A fyddai modd i chi roi rhagor o fanylion am gynnydd tuag at strategaeth amgueddfeydd newydd, a'r graddau y gall dyraniadau cyllidebol yn y maes hwn newid yn dibynnu ar ffurf y strategaeth newydd hon yn.

Yn gywir

**Bethan Jenkins AC**
**Cadeirydd**

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Tachwedd, 2016

Annwyl Weinidog

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 2 Tachwedd i drafod cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18. Roedd nifer o feysydd y gwnaethoch gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor yn eu cylch i roi rhagor o wybodaeth. Mae yna hefyd un neu ddau o feysydd y byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael rhagor o eglurhad yn eu cylch.

*Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd*

Gwnaethoch nodi bod gwerthusiad o'r prosiect wedi'i wneud ac y byddech yn ysgrifennu at y Pwyllgor gan roi rhagor o fanylion am y canfyddiadau.

*Asiantaeth er Hyrwyddo'r Gymraeg*

Gwnaethoch nodi eich bod yn ystyried sefydlu asiantaeth er hyrwyddo'r iaith Gymraeg a beth fyddai strwythur a swyddogaeth asiantaeth o'r fath. Roeddech yn gobeithio gwneud penderfyniadau terfynol ar y materion hyn cyn i'r gyllideb derfynol gael ei hystyried gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr. Gwnaethoch addo y byddech yn ysgrifennu at y Pwyllgor ar ôl i chi fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565

*Asesiad Effaith Strategol Integredig*

Gwnaethoch addo rhoi rhagor o fanylion o ran ynglŷn â sut rydych yn bwriadu cyflawni'r  blaenoriaethau a'r ymrwymiadau ar gyfer y Gymraeg a'r canlyniadau cysylltiedig o ran yr asesiad effaith strategol integredig yn y naratif ynglŷn â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

*Llinell Wariant y Gymraeg mewn Addysg yn y Gyllideb*

Mewn ymateb i gwestiynau, gwnaethoch nodi y gellir defnyddio rhan o'r £4.85 miliwn ychwanegol sydd yn Llinell Wariant y Gymraeg mewn Addysg yn y Gyllideb i sefydlu asiantaeth newydd er hyrwyddo'r iaith Gymraeg, neu ynteu i greu swyddogaeth debyg o fewn corff sydd eisoes yn bodoli.  Dywedasoch y byddech yn ysgrifennu at y Pwyllgor cyn i'r gyllideb derfynol ddod gerbron y Cynulliad ym mis Rhagfyr.

*Cyllideb Comisiynydd y Gymraeg*

Yn y cyfarfod gwnaethoch nodi nad oedd y Comisiynydd wedi gwneud unrhyw gais am gynnydd yn ei chyllideb.  Fodd bynnag, yn dilyn hyn cysylltwyd â ni gan swyddfa'r Comisiynydd a ddywedodd wrthym:

*Anfonwyd amcangyfrif ariannol y Comisiynydd ar gyfer 2017/18 at y Llywodraeth ar 6 Hydref.  Mae dyletswydd statudol arnom i anfon yr amcangyfrif at y Llywodraeth o leiaf bum mis cyn y flwyddyn ariannol perthnasol.*

*Cyllideb y Comisiynydd ar gyfer 2016/17 oedd £3,051,000.  Yn yr amcangyfrif gwnaeth y Comisiynydd gais am £150,000 ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf. H.y. £75,000 yn ychwanegol ar gyfer 2017/18, sef cyllideb o £3,126,000.*

*Gallaf gadarnhau felly bod y Comisiynydd wedi gwneud cais am fwy o arian ar gyfer 2017/18.*

Mae'n amlwg bod rhywfaint o ddryswch rhwng yr hyn a ddywedoch chi wrthym a'r hyn a ddywedodd y Comisiynydd wrthym yn ddiweddarach.  Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro'r sefyllfa fel mater o frys.

Yn gywir

**Bethan Jenkins AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

18 Tachwedd 2016

Annwyl Simon

**Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18 – Prif Grŵp Gwariant yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

Gwnaethom ystyried cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 ar 2 Tachwedd 2016. Nodaf ein prif arsylwadau isod.

Yn ogystal â'r llythyr hwn, rwyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn am wybodaeth ychwanegol mewn nifer o feysydd.

Yn gyffredinol, nodwn fod Prif Grŵp Gwariant yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn wynebu gostyngiad sylweddol mewn dyraniadau cyfalaf. Yn sgil y gwaith sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau ac ymrwymiadau newid hinsawdd y Llywodraeth, gellid ystyried gostyngiadau i'r gyllideb gyfalaf o fewn Maes Rhaglenni Gwariant newid hinsawdd a chynaliadwyedd fel risg i gyflawni'r ymrwymiadau hyn (er fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ein sicrhau nad oedd risg o ran eu cyflawni). Amser a ddengys, a bydd ein rhaglen waith mewn perthynas â gwaith craffu newid hinsawdd yn monitro'r gwaith o gyflawni'r dyletswyddau hyn.

## 1 Proses y gyllideb

### 1.1 Cyflwyno gwybodaeth

Rydym yn ddiolchgar i Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion am ddarparu gwybodaeth i lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb. Mae'r lefel hon o wybodaeth yn hanfodol i'n gwaith craffu ariannol ac o ran sicrhau tryloywder.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

Er gwaetha'r sylwadau uchod, hoffem weld rhagor o wybodaeth yn ymwneud â newidiadau mewn llinellau gwariant a ddarparwyd o dan y golofn 'sylwadau'. Roedd nifer o ostyngiadau mewn gwariant nad oeddent wedi eu hesbonio'n glir. Pan ofynnwyd cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â'r llinellau hyn, roedd ei swyddogion yn gallu cynnig rhywfaint o eglurhad. Pe byddai'r gostyngiadau wedi cael eu hegluro yn fanylach yna mae'n bosib y gallai hynny fod wedi osgoi'r angen i'w harchwilio yn ystod y sesiwn dystiolaeth. Byddaf yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn am ragor o fanylion ar gyfer sesiynau yn y dyfodol.

### 1.2 Cyllidebau carbon a chyllidol

Rydym yn falch bod Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu alinio cyllidebau carbon a chyllidol yn y dyfodol ac rydym yn cymeradwyo'r dull hwn. Byddwn yn dilyn y datblygiad hwn gyda diddordeb brwd a gallai hyn fod yn faes o ddiddordeb i'r Pwyllgor Cyllid yn y dyfodol.

### 1.3 Ffynonellau ariannu allanol

Roedd yn amlwg i ni bod Ysgrifennydd y Cabinet yn dibynnu ar arian o ffynonellau allanol i gyflawni sawl amcan. Mae cyllid Ewropeaidd a benthyca awdurdodau lleol yn ddwy enghraifft.

Mae hi hefyd yn gobeithio am ddyraniadau ychwanegol o gronfeydd wrth gefn cyn fersiwn derfynol y gyllideb ddrafft, yn amodol ar Ddatganiad yr Hydref Canghellor y Trysorlys.

Er mwyn i ni edrych mewn ffordd gyfannol ar gynlluniau gwario Ysgrifennydd y Cabinet ac i asesu lefel y risg a allai fod yn gysylltiedig â rhai o'r dulliau hyn, credwn y dylai gwybodaeth am yr arian a ddisgwylir o'r ffynonellau allanol hyn gael eu darparu i ni yn y dyfodol.

## 1.4 Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol.

Credwn fod angen gwneud mwy i ddangos sut caiff penderfyniadau cyllideb eu llunio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet a gobeithio y bydd hyn yn arwain at dystiolaeth o le mae llinellau cyllideb penodol wedi cael eu creu, eu hatal, eu cynyddu neu eu lleihau o ganlyniad uniongyrchol i gyflawni gofynion y Ddeddf hon.

O ran yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, roeddem yn siomedig na chyfeiriwyd yn benodol at sut yr ystyriwyd anfanteision economaidd-gymdeithasol, cydraddoldeb, y Gymraeg, datblygu cynaliadwy, hawliau plant a threchu tlodi o fewn y portffolio amgylchedd. Fel gyda'r pwynt a wnawn uchod mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, disgwyliwn ragor o fanylion am sut y gwnaeth ystyried y materion trawsbynciol hyn lywio'r gwaith o ddyrannu'r gyllideb. Heb y manylyn hwn, yr argraff a roddir yw bod y materion hyn yn cael eu trin yn arwynebol yn hytrach na'u bod yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau.

## 1.5 Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud cais i gael setliad cyllideb tair blynedd. Rydym yn cydymdeimlo â'r cais hwn. Yn ogystal â helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli'r heriau sylweddol y mae'n wynebu, byddai'n helpu i roi rhywfaint o sicrwydd i staff Cyfoeth Naturiol Cymru. Gallai hyn, yn ei dro, gyfrannu at wella morâl staff y sefydliad.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn cydnabod hyn yn ei adroddiad *Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru* a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016.

## 2 Blaenoriaeth, fforddiadwyedd a gwerth am arian

### 2.1 Tlodi tanwydd

Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod dileu tlodi tanwydd yn flaenoriaeth yn ei phapur cyllideb, ond eto mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb perthnasol yn dangos gostyngiad sylweddol dros gyfnod y gyllideb. Er bod swyddogion wedi awgrymu y gwneir yn iawn am hyn drwy ddefnyddio cyllid Ewropeaidd, rydym yn parhau i fod yn bryderus ynghylch diffyg arian craidd ar gyfer blaenoriaeth o'r fath; yn enwedig gan fod gan hyn y potensial i gynnig buddion sylweddol o ran atal gwariant mewn meysydd eraill a gwneud cyfraniad sylweddol i gyrraedd targedau lleihau carbon.

### 2.2 Amddiffyn rhag llifogydd a rheoli peryglon arfordirol

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai amddiffyn rhag llifogydd yw un o brif flaenoriaethau ei phortffolio, a phwysleisiodd fod cynnal cyllideb rheoli peryglon yn hanfodol i gynnal ac adeiladu gwytnwch i lifogydd a newid hinsawdd yn y dyfodol.

Yn ei adroddiad *Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru* cydnabu Archwilydd Cyffredinol Cymru fod buddsoddiad diweddar Llywodraeth Cymru wedi gwella diogelwch arfordirol ac wedi cyflawni rhai buddion ehangach. Fodd bynnag, nododd bryderon hefyd ynghylch y capasiti yn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i reoli peryglon erydu a llifogydd yn y dyfodol.

Fel mae'r gyllideb ar hyn o bryd, ymddengys i ni fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu llai o arian cyfalaf ar gyfer rheoli peryglon llifogydd yn ystod y Cynulliad hwn o gymharu â'r Cynulliad diwethaf, gyda gostyngiad wedi'i gynllunio o £29 miliwn yn 2017-18 i £17 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2018-19 a 2019-20.

Deallwn fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn gallu cael gafael ar arian ychwanegol drwy fenthyca ond rydym yn dal i fod yn bryderus am y ddibyniaeth hon ar awdurdodau lleol – yn enwedig yn sgil canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol.

Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi nodi'n flaenorol ei bod wedi ystyried Banc Buddsoddi Ewrop fel ffynhonnell ariannu ar gyfer y Rhaglen Rheoli Peryglon Arfordirol. Er ei bod yn bosibl i Fanc Buddsoddi Ewrop fuddsoddi mewn prosiectau y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, caiff 90% o'r buddsoddiadau eu gwneud o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn ychwanegu at yr ansicrwydd ynghylch ffynonellau ariannu ar gyfer dull y Llywodraeth yn y dyfodol.

Rydym yn bwriadu cynnal ymchwiliad i'r maes hwn yn ystod y flwyddyn nesaf a byddwn yn ystyried fforddiadwyedd a gwerth am arian fel rhan o'r gwaith hwn.

Diolchwn i'r Pwyllgor Cyllid am ystyried ein safbwyntiau a gobeithio y byddant o ddefnydd i waith y pwyllgor. Anfonir copi o'r llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet a bydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

Yn gywir



Mark Reckless AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

16 Tachwedd 2016

**Y gyllideb ddrafft ar gyfer 2017/18**

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

Diolch am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg ar 2 Tachwedd i drafod y gyllideb ddrafft, ac am ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani cyn y cyfarfod.

Teimla'r Pwyllgor fod y sesiwn yn un gynhyrchiol ac mae'n croesawu eich sylwadau ar yr angen i wneud penderfyniadau dewr, yn enwedig mewn perthynas ag ymyriadau ataliol ar gyfer profiadau niweidiol i blant a chymunedau gwydn.

Ar bwynt cyffredinol, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod diffyg eglurder ynghylch y dyraniadau ar gyfer rhaglenni penodol, fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. At hynny, mae'r cyllid ar gyfer rhai meysydd polisi pwysig o fewn eich portffolio, fel plant sy'n derbyn gofal, yn dod o fewn cyllidebau Ysgrifenyddion eraill y Cabinet ar hyn o bryd. Mae'r diffyg eglurder hwn yn gwneud craffu ar y dyraniadau hynny yn anodd.

Ceir amlinelliad o sylwadau'r Pwyllgor ar raglenni penodol o fewn eich portffolio isod.

**Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf**

***Llinell Wariant yn y Gyllideb - Atal ac Ymyrraeth Gynnar***

Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor eich bod wedi uno llinellau'r gyllideb ar gyfer Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf yn un llinell, sef Llinell Wariant yn y Gyllideb - Atal ac Ymyrraeth Gynnar Fodd bynnag, ni chaiff y rhaglenni eu hunain eu huno a byddant yn parhau i weithredu fel endidau ar wahân.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd llinellau gwariant unigol ar gyfer pob un o'r tair rhaglen, ac felly roedd y Pwyllgor yn cael dadansoddiad o'r dyraniadau cyn y sesiwn graffu. Cyn y cyfarfod eleni, hysbysodd eich swyddogion y Pwyllgor nad oedd dadansoddiad o'r dyraniadau ar gyfer pob rhaglen ar gael. Fodd bynnag, yn ystod y cyfarfod, roeddech yn gallu dweud wrth y Pwyllgor y symiau penodol a oedd wedi'u dyrannu i bob un o'r rhaglenni.

Mae hyn yn codi tri mater y mae angen rhoi sylw iddynt, ym marn y Pwyllgor.

Yn gyntaf, mae'r diffyg gwybodaeth fanwl am ddyrannu cyllid i'r rhaglenni pwysig hyn yn gwneud y gwaith craffu yn anodd. Mae'r cyfanswm a ddyrannwyd i Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf yn y gyllideb ddrafft yn £154.38 miliwn - cyfran sylweddol o'r gyllideb yr ydych yn gyfrifol amdani. Mae'n hanfodol ar gyfer gwaith craffu da i'r Cynulliad allu cael gafael ar wybodaeth am faint o gyllid sydd wedi'i ddyrannu i raglenni mawr Llywodraeth Cymru.

Yn ail, mae'n amlwg fod gan Lywodraeth Cymru y wybodaeth hon, ond na fyddai'n ei darparu i'r Pwyllgor. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech egluro pam.

Yn drydydd, mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ar gyfer y defnydd o'r cronfeydd hyn. Fodd bynnag, rhaid cael cydbwysedd i sicrhau bod y Cynulliad yn gallu dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei phenderfyniadau; canfod a yw Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr; a sicrhau bod polisïau yn effeithiol.

***Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg***

Mae'r Pwyllgor yn nodi eich ymrwymiad, mewn egwyddor, i barhad Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i'r ddwy raglen esblygu er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall uno'r cyllidebau ar gyfer y ddwy raglen roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol, ond mae pryderon o hyd ynghylch lefel yr oruchwyliaeth a fydd gennych o ran y gwariant a'r canlyniadau yr ydych yn eu disgwyl o ganlyniad i bolisïau allweddol y Llywodraeth.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am sut yr ydych yn bwriadu monitro'r defnydd o'r cyllid cyfunedig ar gyfer y rhaglenni.

Gwnaethoch gyfeirio hefyd at elfen allgymorth Dechrau'n Deg a sut y mae wedi 'dechrau mynd i'r afael' â chyfyngiadau'r rhaglen, h.y. ei bod yn seiliedig ar leoliad. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael gwybodaeth am unrhyw asesiad neu werthusiad yr ydych wedi'u cynnal ar yr elfen hon o'r rhaglen.

### *Cymunedau yn Gyntaf*

Mae'r Pwyllgor yn nodi eich bod wedi cyhoeddi eich bod yn bwriadu dirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben a'ch bod ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad ynghylch a ddylai'r rhaglen barhau.

Gwnaethoch roi gwybod i'r Pwyllgor, os byddwch yn penderfynu 'gadael' Cymunedau yn Gyntaf, 'y bydd yn ymadael dan reolaeth'. Rhowch ragor o wybodaeth am yr hyn y byddech yn ei ystyried i fod yn 'ymadael dan reolaeth' a sut y caiff ei reoli.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am y sail dystiolaeth y byddwch yn ei ystyried wrth wneud eich penderfyniad; a'r amcangyfrifon o'r costau a'r buddiannau o roi'r gorau i'r rhaglen.

## Parthau Plant

Mae'r Pwyllgor yn nodi eich sylwadau am Barthau Plant, sef cysyniad Llywodraeth Cymru sydd yn ei ddyddiau cynnar o hyd. Mae'r Pwyllgor yn deall y bydd yn cynnwys nifer o ymyriadau gwahanol sydd wedi'u targedu i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Y broblem gyda dull o'r fath yw ei bod yn anodd priodoli llwyddiant i un ymyriad ac, felly, asesu effeithiolrwydd a gwerth am arian pob ymyriad. At hynny, gellir ariannu ymyriadau lluosog ar draws portffolios Gweinidogion lle bydd cydweithrediad yn ofynnol.

Bydd y Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth wrth i'r cysyniad gael ei ddatblygu.

## Gofal plant

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod oddeutu £10 miliwn wedi'i ddyrannu i waith archwilio a gwaith i dreialu'r rhaglen uchelgeisiol hon. Mae'r Pwyllgor yn gefnogol o'r egwyddor sy'n sail i'r rhaglen ac yn cydnabod bod y rhaglen yn dal yn ei dyddiau cynnar. Er hynny, mae'r diffyg eglurder ynghylch nifer o faterion yn peri pryder.

### *Costau'r rhaglen*

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod eich amcangyfrif o gostau'r cynnig gofal plant fel y rhagwelir ar hyn o bryd yn £100 miliwn y flwyddyn.

Roedd dadansoddiad gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn awgrymu y gallai'r costau fod rhwng £125 miliwn a £228 miliwn.

Gwnaethoch ddweud bod y tybiaethau sy'n sail i gyfrifiadau'r Sefydliad yn ystyried cynnig gofal plant yn ystod y tymor, a oedd yn anghywir, gan fod cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru yn ymestyn nid yn unig i gyfnod y tymor, ond i 48 wythnos y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn cwestiynu sut y gall amcangyfrif Llywodraeth Cymru o gostau, os yw'n seiliedig ar gynnig sy'n cynnwys mwy o wythnosau yn y flwyddyn, fod yn is nag amcangyfrif y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn gwneud rhagdybiaethau gwahanol i'r Sefydliad.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am y rhagdybiaethau yr ydych yn eu defnyddio fel sail ar gyfer eich amcangyfrifon a'r dystiolaeth yr ydych yn ei defnyddio fel sail ar gyfer y tybiaethau hynny. A allwch hefyd ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am unrhyw fodelau eraill o ddarpariaeth yr ydych wedi'u hystyried a'r costau a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â hwy?

At hynny, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael gwybodaeth am eich asesiadau o fuddiannau ariannol y rhaglen fel y'u rhagwelir ar hyn o bryd, pan fydd ar gael.

Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i ddarparu'r rhaglen hon ac y caiff ei chostau eu rheoli o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru. O ystyried y diffyg eglurder ynghylch costau, mae'r Pwyllgor yn cwestiynu doethineb ymrwymiad o'r fath. Os bydd costau gwirioneddol y rhaglen yn agosach i'r amcangyfrifon uwch a wnaed gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, bydd yn cael effaith sylweddol, barhaus ar gyllidebau adrannau a rhaglenni eraill.

***Gweithlu***

Mewn perthynas â chapasiti'r gweithlu i ddarparu'r rhaglen, gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor fod hyn yn bryder sylweddol ichi - yn fwy felly hyd yn oed na chostau'r rhaglen. Soniwyd hefyd am y pwysigrwydd o sicrhau bod y gweithlu o ansawdd uchel.

Fodd bynnag, ni wnaethoch roi manylion am sut yr eir i'r afael â'ch pryderon ynghylch capasiti'r gweithlu. Efallai mai dyma'r achos gan fod y rhaglen yn dal i fod yng nghyfnod cynnar y datblygiad, ond mae'r Pwyllgor yn pryderu bod maint y dasg yn sylweddol a bod angen gwneud cynnydd yn gyflym.

Gyda hyn mewn golwg, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am yr asesiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud o gapasiti'r gweithlu i ddarparu'r rhaglen; y gwaith cynllunio sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â phroblemau posibl gyda chapasiti; ac asesiadau o'r costau o sicrhau bod capasiti'r gweithlu yn ddigonol i ddarparu'r rhaglen.

***Darpariaeth Gymraeg***

Gwnaethoch ddweud eich bod wedi cael trafodaethau cynnar gyda'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg. Gwnaethoch ddweud hefyd y bydd y cynlluniau peilot yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y gellir gwneud darpariaeth o'r fath.

Cred y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru roi mesurau ar waith i sicrhau bod digon o ddarpariaeth ar gael yn y Gymraeg a bod digon o gapasiti o fewn y gweithlu cyfrwng Cymraeg i sicrhau'r ddarpariaeth honno. At hynny, o ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu'n sylweddol nifer y siaradwyr Cymraeg, cred y Pwyllgor y dylech anelu nid yn unig i ateb y galw, ond i ddefnyddio'r rhaglen fel cyfle i annog y defnydd o'r Gymraeg.

***Amserlen ar gyfer gweithredu***

Rydych wedi gwneud ymrwymiad clir y bydd y rhaglen ar waith yn ei chyfanrwydd erbyn 2021.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pa mor uchelgeisiol yw'r ymrwymiad hwn, o ystyried maint y rhaglen a'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu amserlen fras, gan gynnwys cerrig milltir a thargedau, o sut y byddwch yn darparu'r rhaglen erbyn 2021.

**Rhianta cadarnhaol a'r costau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth i ddileu'r amddiffyniad o gosbedigaeth resymol**

Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor y byddech yn gwerthuso'r defnydd o'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'r dulliau cyfathrebu eraill a ddefnyddir gennych fel rhan o'r rhaglen rhianta cadarnhaol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth am ganlyniadau'r gwerthusiad pan fydd ar gael. A allech hefyd ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am gyfran y cyllid a ddyrannwyd i ddarparu prosiectau o fewn y rhaglen, gan gynnwys y canlyniadau yr ydych yn disgwyl eu gweld o'r buddsoddiad hwnnw.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi nad yw cyllid wedi cael ei ddarparu ym mlwyddyn y gyllideb hon ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig i gael gwared ar yr amddiffyniad o gosbedigaeth resymol gan na fydd y Bil yn barod yn y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, caiff gwaith paratoadol ei ariannu o'r gyllideb rhianta cadarnhaol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael manylion am y gwaith paratoi.

**Plant sy'n Derbyn Gofal, mabwysiadu, CAFCASS Cymru**

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 5 y cant dros y pum mlynedd diwethaf, er ei fod wedi aros yn gymharol sefydlog dros y tair blynedd diwethaf. Bydd hyn yn anochel yn cael effaith ar gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol a gwnaethoch gyfeirio at nifer o ymyriadau yr ydych yn eu harchwilio gyda'r nod o leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Gwnaethoch gyfeirio hefyd at grŵp cynghori ar blant sy'n derbyn gofal, sy'n cael ei gadeirio gan David Melding AC ac sy'n ystyried amrywiaeth o faterion perthnasol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd yr ymyriadau a ddisgrifiwyd gennych yn yr rai ar gyfer yr hirdymor - byddant yn cymryd amser i gael effaith. Mae'r Pwyllgor yn ceisio sicrwydd gennych eich bod yn fodlon bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau fel y maent yn bodoli ar hyn o bryd.

Gwnaethoch hefyd ddweud wrth y Pwyllgor fod y dyraniadau cyllid ar gyfer CAFCASS Cymru 'yn aros ar yr un lefel er gwaethaf galw cynyddol ar gyfeiriadau yn ystod y 12 mis diwethaf.' Dywedodd Prif Weithredwr interim CAFCASS Cymru wrth y Pwyllgor fod y gwasanaeth yn rheoli'r cynnydd yn y galw o ganlyniad i ailstrwythuro mewnol a rhaglen foderneiddio, a oedd wedi cynyddu gwytnwch. Mae'r Pwyllgor yn ceisio sicrwydd gennych, pe bai'r galw yn parhau i gynyddu, eich bod yn hyderus bod y gwasanaeth yn gynaliadwy.

**Chwarae, Cyfranogiad a Hawliau Plant**

Mae'r Pwyllgor, unwaith eto, yn siomedig na chafodd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn ei baratoi ar gyfer y gyllideb ddrafft hon. O ystyried bod dyraniadau ariannol Llywodraeth yn amlwg yn un o'r ffyrdd mwyaf amlwg yr effeithir ar hawliau plant, mae'n anodd deall pam nad oedd angen asesiad o'r fath er mwyn cydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae diffyg Asesiad annibynnol a thryloyw o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn yn golygu ei bod yn fwy anodd nodi sut y bydd dyraniad Llywodraeth Cymru o adnoddau yn effeithio ar blant a phobl ifanc, ac ar grwpiau unigol o fewn y boblogaeth honno.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi enghreifftiau o sut yr effeithiwyd ar ddyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2017-18, neu sut y cawsant eu newid, o ganlyniad i ystyriaeth Llywodraeth Cymru o hawliau plant.


**Tlodi plant**

*Cymunedau gwydn a Phrofiadau Niweidiol i Blant*

Mae'r Pwyllgor yn croesawu eich gonestrwydd wrth drafod y diffyg cynnydd wrth fynd i'r afael â thlodi ac yn nodi bod rhai materion mewn perthynas â'r agenda hon, fel diwygio lles, y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn croesawu eich sylwadau am bwysigrwydd ymyriadau ataliol cynnar. Nododd y Pwyllgor hefyd gyda diddordeb eich sylwadau am Brofiadau Niweidiol i Blant. Mae'r rhain yn bynciau y mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at eu trafod gyda chi dros y flwyddyn nesaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio ei waith craffu cyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

Copi at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC,
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Alun Davies AC,
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

16 Tachwedd 2016

**Cyllideb ddrafft 2017-18**

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet ac Weinidog

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 10 Tachwedd i drafod y Gyllideb Ddrafft. Diolch ichi hefyd am ddarparu eich papur cynhwysfawr cyn y cyfarfod ac am roi sylw i bob un o geisiadau'r Pwyllgor am wybodaeth benodol. Teimlai'r Pwyllgor bod y sesiwn wedi bod yn un gynhyrchiol iawn.

Roedd yn ddefnyddiol fod eich papur i'r Pwyllgor yn cadarnhau 10 prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru o ran addysg. Roedd deall y cysylltiad â'ch prif flaenoriaethau o gymorth ar gyfer gwaith craffu ar y gyllideb ar draws eich portffolio. Bydd y Pwyllgor yn ystyried pob un o'r blaenoriaethau hyn yn fanwl yn ystod y Cynulliad hwn.

Amlinellir isod sylwadau'r Pwyllgor ar feysydd a rhaglenni penodol o fewn eich portffolio.

## 1. Cronfeydd wrth gefn ysgolion

### *Lefelau'r cronfeydd wrth gefn*

Cyflwynodd Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 bwerau newydd i alluogi awdurdodau lleol i ymyrryd pan fydd gwargedau ysgolion yn cyrraedd lefelau penodol, sef £50,000 neu ragor mewn ysgol gynradd a £100,000 neu ragor mewn ysgol uwchradd neu ysgol arbennig.

Nododd y Pwyllgor eich bod wedi synnu am y lefel o gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan ysgolion ledled Cymru, sydd dros £64 miliwn, fel y cadarnhawyd gennych. Roeddech yn cydnabod bod cadw cronfeydd wrth gefn yn briodol mewn

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

amgylchiadau penodol, ond dywedasoch y byddwch yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn defnyddio dull gweithredu mwy rhagweithiol wrth reoli'r cronfeydd wrth gefn hynny.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod cyllidebau ysgolion yn cael eu defnyddio i'r eithaf ac mae'n croesawu eich ymrwymiad i weithio gydag awdurdodau lleol ar y mater hwn. Hefyd, a oes modd i chi ddarparu manylion ar faint o ysgolion sy'n rhagori ar lefelau'r cronfeydd wrth gefn a nodir yn y Rheoliadau? O gofio eich pryderon, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylech ystyried adolygu'r rheoliadau, i fodloni eich hun bod y terfynau ar gyfer cronfeydd wrth gefn yn briodol.

**2. Y Cynnig Gofal Plant**

Nododd y Pwyllgor y bydd cynnydd o £20 miliwn yn y gyllideb cyfalaf bob blwyddyn o 2018-19 ymlaen i ddarparu seilwaith i fodloni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnig deg awr ar hugain o ofal plant am ddim i blant 3 a 4 mlwydd oed am 48 wythnos y flwyddyn i rieni sy'n gweithio.

Yn ei ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 8 Tachwedd dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Blant y cyflawnir rhan o'r cynnig gofal plant gan y ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen yn ystod y tymor. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedasoch wrth y Pwyllgor eich bod yn hyderus y byddai eich cyllideb yn ddigonol i ddarparu'r elfennau Cyfnod Sylfaen o'r rhaglen hon. Bydd y Pwyllgor yn parhau i adolygu hyn fel y datblyga'r rhaglen.

**3. Her Ysgolion Cymru**

Mae'r Pwyllgor yn nodi eich bod wedi penderfynu terfynu'r rhaglen Her Ysgolion Cymru.

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn y llynedd, roedd eich rhagflaenydd yn bendant bod tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu bod diwygio lefel system gynaliadwy yn cymryd o leiaf bum mlynedd i'w gyflawni. Felly, roedd ysgolion "yn wir yng nghamau cynnar eu taith i wella".

Mae'r Pwyllgor yn nodi fod y rhaglen yn cael ei gwerthuso'n barhaus. Cyhoeddwyd canlyniadau cam cyntaf y gwerthusiad hwnnw. Fodd bynnag, mae ail gam y gwerthusiad, a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac y gellir dadlau yw'r elfen bwysicaf o'r gwerthusiad o ran mesur effaith, eto i gael ei gwblhau. Nid yw'n glir pam y gwnaed y penderfyniad i roi terfyn ar y rhaglen hon cyn cwblhau cam terfynol y gwerthusiad.

Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn mai goblygiadau rhoi terfyn ar Her Ysgolion Cymru yn awr fydd na chaiff effaith lawn y rhaglen a gwerth llawn y buddsoddiad eu gwireddu. A oes modd i chi roi manylion ynghylch y dystiolaeth y seiliwyd y penderfyniad i roi terfyn ar Her Ysgolion Cymru arni.

Dywedasoch wrth y Pwyllgor fod y rhaglen "yn gyfyngedig o ran amser" ac y caiff ei hariannu gan gronfeydd wrth gefn canolog. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn pryderu o glywed eich cadarnhad y dychwelir yr arian i'r cronfeydd wrth gefn, ac nad yw yn cael ei ddefnyddio yn rhywle arall o fewn y MEG Addysg. Penderfynodd Llywodraeth Cymru, ym mis Ionawr 2014, i ddefnyddio swm canlyniadol Barnett i "barhau i godi safonau addysgol". Os ydych wedi penderfynu nad yw Her Ysgolion Cymru yn defnyddio'r arian yn y ffordd orau, pam nad ydych yn defnyddio'r arian ar ddull arall o fuddsoddi mewn safonau ysgol?

Mae'r ffaith bod £15 miliwn yn cael ei ddychwelyd o'r MEG Addysg i'r cronfeydd wrth gefn canolog yn codi cwestiwn ynghylch faint o'r £20 miliwn ar wahân ar gyfer safonau ysgolion sy'n arian ychwanegol net mewn gwirionedd.

**4. Grant Amddifadedd Disgyblion**

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn ymyriad allweddol gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o helpu i godi safonau mewn ysgolion.

Nodwn eich honiad fod y Grant wedi helpu i godi lefelau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion â hawl i brydau am ddim (eFSM) am yr ail flwyddyn yn olynol. Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n anodd priodoli canlyniadau penodol i'r Grant Amddifadedd Disgyblion, gan ei fod yn un o nifer o ymyriadau yn y maes polisi hwn. Ymhellach, roedd y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM a'u cyfoedion eisoes yn culhau cyn cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

Rydym yn pryderu o hyd na all Llywodraeth Cymru asesu gwerth am arian y rhaglen hon yn llawn ac, o ganlyniad, na all sicrhau bod disgyblion cymwys yn cael y canlyniadau gorau o ganlyniad i'r cyllid sylweddol a ddyrennir i'r rhaglen. Rydym, felly, yn croesawu'r ffaith bod Estyn, ac Eiriolwr Codi Cyrhaeddiad annibynnol yn cynnal gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Gobeithio y gall hyn helpu i egluro faint o effaith a gaiff y rhaglen bwysig hon, a'i gwerth am arian.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu fwyfwy bod diffyg eglurder mewn ysgolion ynghylch sut y dylid defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i gyhoeddi canllawiau newydd arno, er mwyn sicrhau y caiff y Grant ei wario yn y ffordd fwyaf effeithiol.

***Addysg y blynyddoedd cynnar***

O gofio bod ymyrraeth gynnar ac atal yn agweddau mor amlwg ar Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor yn credu y dylech ystyried ymchwilio i effaith bosibl "blaen-lwytho" y Grant Amddifadedd Disgyblion, fel bod rhagor o arian ar gael i ddisgyblion y blynyddoedd cynnar, yn hytrach na disgyblion hŷn. Dywedasoch wrth y Pwyllgor y byddech, wrth gwrs, yn croesawu cael rhagor o arian ar gyfer blynyddoedd cynnar o ran y Grant Amddifadedd

Disgyblion, ond y cwestiwn yw, sut y gellir sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl ar gyfer defnyddio'r adnoddau sy'n bodoli eisoes ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion.

Fel rhan o'r ystyriaeth honno, efallai yr hoffech ystyried a fyddai'n briodol i gymhwysedd ar gyfer y gyfradd uwch o'r Grant Amddifadedd Disgyblion gael ei ymestyn i lawr un flwyddyn ysgol, fel bod disgyblion yn y flwyddyn Derbyn yn cael y dyraniad Grant Amddifadedd Disgyblion llawn.

Gellid dadlau mai'r Dosbarth Derbyn yw y flwyddyn gyntaf y gall ymyriadau wedi'u targedu gael yr effaith fwyaf diriaethol, o gofio mai dyma pan mae plant yn dechrau mynychu'r ysgol yn llawn amser fel arfer. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael rhagor o fanylion am y sail resymegol ar gyfer talu'r gyfradd blynyddoedd cynnar o £600 ar gyfer plant oed Dosbarth Derbyn (blwyddyn gyntaf babanod, sy'n 4 mlwydd oed ar ddechrau'r flwyddyn) yn hytrach na'r gyfradd oedran ysgol uwch, sef £1,150? Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried eich pwyslais ar ymyrryd yn gynnar.

***A yw'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gael i blant y Lluoedd Arfog***

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid targedu'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer pob grŵp o dan anfantais, ac un grŵp sydd wedi'i amlygu yn ddiweddar yw plant personél y Lluoedd Arfog. O gofio natur eu haddysg, yr amherir arno'n aml, gall rhai o'r plant hyn fod o dan anfantais o ran eu dysgu.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd gennych y gallech edrych yn fanwl p'un a ellid ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion i blant y Lluoedd Arfog. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai modd ichi roi gwybod iddo, maes o law, beth yw eich canfyddiadau ar y mater hwn.

***Plant sy'n Derbyn Gofal***

Dywedasoch wrth y Pwyllgor y caiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu mabwysiadu ei ddyrannu i Gonsortia Addysg Rhanbarthol, a byddant yn defnyddio eu profiad a'u dealltwriaeth o anghenion ysgolion lleol i wneud y defnydd gorau o'r cyllid. Cadarnhawyd gennych y byddwch yn herio'r Consortia yn rheolaidd ynghylch eu defnydd o'r arian.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn parhau'n bryderus ei bod yn anodd asesu a yw cyllid a ddyrennir i blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu, yn cyrraedd y rhai sydd mewn angen mewn gwirionedd. Mae hefyd yn anodd monitro effaith y cyllid. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld canlyniadau eich gwerthusiad o ran plant sy'n derbyn gofal, a gaiff ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd, fel y cadarnhawyd gennych.

Byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd i glywed sut yr ydych yn asesu effaith ymestyn y defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i blant wedi'u mabwysiadu, yn arbennig gan nad yw'r dyraniadau i'r consortia rhanbarthol wedi'u cynyddu i ystyried niferoedd y plant sydd wedi'u mabwysiadu.

**5. Safonau Ysgolion**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod £20 miliwn ychwanegol yn cael ei gynnwys yng nghyllideb 2017-18 (fel rhan o'r addewid o £100 miliwn dros bum mlynedd) ar gyfer codi safonau ysgolion. Dywedasoch wrth y Pwyllgor mai eich bwriad oedd canolbwyntio ar y pedwar prif faes a ganlyn ar gyfer y gwariant hwn:

- £3.5m i ddatblygu capasiti o ran arweinyddiaeth addysg;
- £2m fel rhan o'r maes cwricwlwm ac asesu;
- £10m o dan addysgeg ar gyfer datblygu'r gweithlu;
- £4 miliwn i ddatblygu gweithio o ysgol i ysgol.

Cadarnhawyd ei bod yn fwriad gennych i weithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i edrych ar y pedwar maes, er mwyn sicrhau eich bod yn defnyddio'r dull gweithredu cywir. Dywedasoch wrthym eich bod yn disgwyl adborth cynnar gan yr OECD yn hyn o beth, ac y byddai adborth ffurfiol yn dilyn yn ddiweddarach. Byddai'r Pwyllgor yn hoffi gweld adborth yr OECD pan fydd ar gael.

Mae'r Pwyllgor yn deall pam yr ydych wedi canolbwyntio ar bedwar maes penodol o ran yr £20 miliwn o gyllid ychwanegol, ond mae'n eich annog i barhau i adolygu hyn, ac i ail-ganolbwyntio arian yn ôl yr angen yn y dyfodol.

***Cyllidebau ysgolion***

Yn y Pedwerydd Cynulliad, roedd gan Lywodraeth Cymru bolisi o ddiogelu cyllidebau ysgolion, fel eu bod yn derbyn newid a oedd un pwynt canran yn uwch na'r newid yng ngrant bloc cyffredinol Cymru. Cyflawnwyd hyn drwy gyfuniad o arian yn y Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol drosglwyddo'r warchodaeth, a chyllidebau penodol a oedd yn cefnogi dysgwyr o fewn y MEG Addysg. Yn ôl ffigurau Llywodraeth Cymru, arweiniodd hyn at £106 miliwn ychwanegol ar gyfer ysgolion rhwng 2010-11 a 2015-16.

Mae'r Pwyllgor yn nodi eich bod wedi penderfynu peidio â diogelu cyllidebau ysgolion unigol yn yr un modd yn ystod y Pumed Cynulliad. Yn hytrach, rydych wedi dyrannu £100m ar gyfer gwella ysgolion dros bum mlynedd y Cynulliad hwn.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai modd i chi egluro eich rhesymeg dros y penderfyniad hwn. A wnaethoch ystyried parhau â'r dull a ddilynwyd yn y Pedwerydd Cynulliad?

**6. Maint dosbarthiadau babanod**

Mae lleihau maint dosbarthiadau babanod wedi'i restru fel un o'r 10 uchaf o blith ymrwymiadau addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi dyraniad o £1 miliwn o'r BEL 'Grant Gwella Ysgolion' ar gyfer gwaith treialu. Ymddengys bod hyn, fodd bynnag, ar draul lleihad o £1 miliwn yn y Grant Gwella Addysg a roddir i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am gael eglurder ar y mater hwn.

O ran y polisi, dywedasoch wrth y Pwyllgor fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyflawni gwaith cwmpasu o ran ei roi ar waith, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ysgolion gyda chyfraddau eFSM uchel a chategori gwella/cymorth coch neu oren, sydd â dosbarthiadau sy'n cynnwys 29 neu fwy o ddisgyblion. Rydych hefyd wedi dweud na fyddwch yn pennu dyraniadau cyllideb ar gyfer y polisi nes bod y gwaith cwmpasu wedi'i gwblhau.

Nodwn eich bwriad i wneud cyhoeddiad ym mis Ionawr ynghylch sut y bydd y polisi hwn yn gweithio dros gyfnod y Pumed Cynulliad. Fodd bynnag, cyn y cyhoeddiad hwnnw, a oes modd i chi roi arwydd cynnar o sut y caiff y £1miliwn ei wario ar y cynllun peilot ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys: faint o ysgolion a gaiff eu cynnwys o fewn meini prawf eich targed; p'un a ydych yn treialu modelau eraill ar gyfer y ddarpariaeth; sut y byddwch yn asesu canlyniadau'r cynlluniau peilot; a sut y byddwch yn asesu effeithiolrwydd y cynlluniau peilot.

**7. Addysg bellach ac addysg uwch**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod £30 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach, a bod £5 miliwn o hwn wedi'i ddyrannu i Addysg Bellach.

Pan ofynnwyd iddo pam bod y dyraniad yn ymddangos yn gymharol fach ar gyfer Addysg Bellach, dywedasoch wrth y Pwyllgor eich bod yn defnyddio dull gweithredu cydlynol ar gyfer gwella'r system addysg yn ei chyfanrwydd. Roeddech hefyd eisiau sicrhau llif gydlynol, o addysg statudol i ddysgu Ôl 16 mlwydd oed, a rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Soniasoch hefyd nad oedd dim ffiniau i Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Cadarnhawyd y byddwch yn cynnwys cyfarwyddyd bod yn rhaid i AU ac AB wella eu perthynas, gyda'r dysgwr yn gallu symud rhwng AB ac AU, yn y Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol y byddwch yn ei anfon at y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer 2017-18.

A oes modd i chi ymhelaethu ar hyn a sut yr ydych yn disgwyl i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch adlewyrchu hyn yn y ffordd y maent yn dyrannu arian? A allech amlinellu eich gweledigaeth ar gyfer sut y bydd Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu profiad dysgu mwy cydlynol, a sut y gallai hyn effeithio ar eu cyllidebau yn y blynyddoedd nesaf?

*Adolygiad Diamond*

Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu atoch yn ddiweddar i amlinellu nifer o feysydd sy'n parhau heb eu datrys ac y mae angen mwy o eglurder arnynt o ran yr adolygiad. Bydd y Pwyllgor yn parhau i adolygu'r mater hwn.

*Dysgu Rhan-amser i Oedolion*

Mae'r Pwyllgor yn dal yn bryderus ynghylch digonolrwydd y cyllid ar gyfer Dysgu Rhan-amser i Oedolion. Mae'r lleihad yn y cyllid ar gyfer Addysg Bellach dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith, na ddylid ei danbrisio, ar y sector.

Yn eich papur i'r Pwyllgor rydych yn nodi, "oherwydd amddiffyn y llinell gyllideb hon, ni ddisgwylir dim rhagor o ostyngiadau ar ddysgu rhan-amser". Fodd bynnag, rydych yn cydnabod, yn dilyn y gostyngiadau sylweddol yn 2014/15 a 2015/16, yr effeithiwyd yn sylweddol ar y ddarpariaeth ran-amser.

Dywedasoch eich bod yn hyderus fod arian ar gyfer dysgu rhan-amser yn ddigonol, ond mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y gostyngiad mewn cyllidebau blaenorol wedi effeithio mor ddifrifol ar y sector  nes y bydd angen ymyrraeth sylweddol i adfer y ddarpariaeth i'w lefelau blaenorol. A oes gennych weledigaeth ar gyfer darparu dysgu rhan-amser yn y dyfodol, a sut y caiff hyn ei fonitro?

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r sector Addysg Bellach flaenoriaethu a diogelu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 16-19 mlwydd oed. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut y bydd y sector Addysg Bellach yn parhau i wneud hyn, ac yn peidio â gosod dim rhagor o ostyngiadau ar ddysgu gan oedolion a/neu ddysgu rhan-amser.

**8. Cymraeg i Oedolion**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r £5 miliwn ychwanegol ar gyfer y ddarpariaeth dysgu Cymraeg i oedolion. Yn eich papur i'r Pwyllgor roeddech hefyd yn nodi bod penderfyniadau ar sut y defnyddir yr arian hefyd yn cael eu llywio gan flaenoriaethau Strategaeth y Gymraeg newydd, y cwblhaodd Llywodraeth Cymru ei hymgynghoriad yn ei chylch ar 1 Tachwedd 2016. Dywedasoch wrth y Pwyllgor y byddech yn cwrdd â'r sector i helpu i sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r arian ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio rôl hollbwysig ehangu addysg cyfrwng Cymraeg i gyflawni ei gweledigaeth ar gyfer cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er nad oedd modd i chi roi manylion ynghylch Strategaeth y Gymraeg newydd, cadarnhawyd eich bod yn gweithio i sicrhau bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs) yn glir ac yn uchelgeisiol, ac y byddech yn cydweithio ag awdurdodau lleol ar eu cynlluniau newydd.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai modd i chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf, maes o law, ar ddatblygiad Strategaeth y Gymraeg a sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol i weithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

**9. Cyllid cyfalaf**

Mae'r Pwyllgor yn nodi yr effeithir ar y BEL sy'n ariannu Ysgolion yr 21ain Ganrif gan ddull Llywodraeth Cymru o gyfrifo llinell sylfaen ddiwygiedig. Cafodd £32 miliwn ei dynnu allan o'r lefel Cyllideb Atodol 2016-17 ar gyfer dyraniadau untro ar gyfer prosiectau Addysg Bellach, sy'n cael eu hystyried yn annodweddiadol o lefel y gwariant blynyddol yn ôl pob tebyg. Cafodd £43 miliwn, a oedd yn ariannu gwaith cyfalaf cyffredinol awdurdodau lleol, ei symud i'r MEG Llywodraeth Leol (Grant Cynnal Refeniw) fel rhan o gam i ddangos bod y cyllid hwn yn fath heb ei neilltuo.

Felly, os diystyrir y £43 miliwn a drosglwyddwyd o'r gyllideb, bydd y gyllideb gyfalaf naill ai wedi aros yr un fath o'i chymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig, neu wedi lleihau £32 miliwn, os caiff ei chymharu â lefel 2016-17.

A allwch roi esboniad pellach o'r fethodoleg cyfrifyddu ar gyfer cael gwared ar y cyllid o £32 miliwn i Ysgolion yr 21ain Ganrif at ddibenion cyfrifo'r llinell sylfaen ddiwygiedig? A allwch hefyd gadarnhau fod symud yr arian cyffredinol o £43 miliwn i'r MEG Llywodraeth Leol yn gam cyflwyniadol yn unig, ac na effeithir yn andwyol ar gyllidebau awdurdodau lleol?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid er mwyn helpu'r Pwyllgor hwnnw i graffu'n gyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

cc: Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

**Vaughan Gething AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**Rebecca Evans AC**
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

17 Tachwedd 2016

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18**


Annwyl Ysgrifennydd a Gweinidog y Cabinet

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 3 Tachwedd 2016 i drafod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb, lle y bo'n briodol, maes o law.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, i lywio ei waith craffu cyffredinol ar y gyllideb ddrafft, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, o ystyried y meysydd o ddiddordeb cyffredin rhwng ein dau bwyllgor.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddIechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

**Atodiad: sylwadau ar y gyllideb ddrafft**

Dyma'r sesiwn graffu gyntaf ar y gyllideb flynyddol yn y Cynulliad newydd ac roedd y trafodaethau a gawsom, er eu bod yn amrywio'n eang, o lefel uchel. Felly, ystyriwn fod y sesiwn yn cynrychioli'r llinell sylfaen ar gyfer y pum mlynedd nesaf, ac mae nifer o faterion y byddwn am eu trafod eto yn fanylach.

Rydym hefyd am dynnu sylw, dros gyfnod y Cynulliad hwn, ein bod yn awyddus i ganolbwyntio ein sylw ar yr allbynnau a chanlyniadau, a sut mae'r rhain yn dangos gwerth am arian. O ganlyniad, byddwn yn awyddus i gael darlun manwl gennych o'r dewisiadau ariannol a wnewch a'r canlyniadau rydych yn disgwyl eu cael o ganlyniad.

## 1. Dyraniad ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau'r GIG

O gymharu â'r llinellau sylfaen diwygiedig ar gyfer 2016-17, mae cyfanswm y dyraniad ar gyfer Iechyd, Lles a Chwaraeon wedi cynyddu £279.290 miliwn. Ar gyfer dyraniad cyfalaf, bu cynnydd net o £25.498 miliwn.

Y newid mwyaf yng nghyllideb 2017-18 ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yw'r buddsoddiad ychwanegol o £240 miliwn o gronfeydd wrth gefn i helpu'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys £20 miliwn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Yn eich papur, gwnaethoch nodi y bydd y buddsoddiad hwn "yn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth ac yn helpu i drawsnewid y gwaith o ddarparu gofal" ac y bydd yn "galluogi sefydliadau i barhau i fodloni'r twf parhaus o ran galw a chostau gwasanaethau sydd wedi'u disgrifio yn adroddiadau Ymddiriedolaeth Nuffield a'r Sefydliad Iechyd."

Rydych yn mynd ymlaen i nodi bod y "buddsoddiad yn tybio cyflawni parhaus arbedion effeithlonrwydd o 1% o leiaf mewn termau real bob blwyddyn." Ymhellach, mae naratif cyllideb Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn galluogi GIG Cymru i fodloni "costau codiadau cyflog staff y GIG; darparu rhagor o ofal mewn lleoliadau gofal sylfaenol a gofal cymunedol; cynnal y buddsoddiad mewn cyffuriau a thriniaethau newydd, a sicrhau gofal o safon i bawb".

Fel Pwyllgor, rydym yn ymwybodol iawn o'r cyllid hirdymor a'r pwysau cynaliadwyedd sy'n wynebu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r rhesymau dros hyn yn hysbys ac nid ydym am eu hailadrodd yma eto. Rydym hefyd yn cydnabod barn nifer o randdeiliaid allweddol bod trawsnewid gwasanaeth yn hanfodol i ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol, ac rydym yn gefnogol iawn o hyn. Fodd bynnag, rydym yn teimlo bod angen cyflymu'r newid.

O ganlyniad, croesawn y buddsoddiad ychwanegol o £240 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn enwedig o ystyried yr heriau ariannol hysbys sy'n wynebu nifer o fyrddau iechyd lleol (a drafodir yn ddiweddarach yn y llythyr hwn), rydym yn cwestiynu a fydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn gallu creu cynaliadwyedd gwasanaethau a newid trawsnewidiol, neu a fydd yn mynd i'r llinell waelod yn unig.

Gyda hyn mewn cof, **byddem yn ddiolchgar pe byddech yn nodi eich disgwyliadau eich hun o'r arian ychwanegol hwn – pa ganlyniadau penodol y gallwch ddisgwyl eu cael o ran diwygio, gwella gwasanaeth ac ysgogi newid mewn gwasanaeth.**

Mewn perthynas ag ymyriadau wedi'u targedu, nodwn eich tystiolaeth y bydd gennych fwy i ddweud am hynny yn ddiweddarach eleni, o ran y gwaith a wnaed a'ch disgwyliadau ar gyfer pob bwrdd iechyd. **Edrychwn ymlaen at glywed gennych ar y mater hwn.**

Yn fwy cyffredinol, nodwn fod rhai ffrydiau ariannu a oedd ar gael yn 2016-17 ond nad ydynt yn cael eu nodi yn y gyllideb ddrafft nac yn eich papur tystiolaeth. **A allech chi egluro'r sefyllfa o ran y rhain**—

- Gwasanaethau pobl hŷn ac iechyd meddwl: gwnaed dyraniad o £30 miliwn yn 2016-17;
- Gofal sylfaenol, cynlluniau cyflawni, technoleg iechyd ac iechyd meddwl: gwnaed £65 miliwn ar gael yn 2015-16 a 2016-17. (Nodwn eich datganiad ar 20 Medi 2016 y gwnaed £42.6 miliwn ar gael ar gyfer 2016-17 i fyrddau iechyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu cynlluniau gweithlu gofal sylfaenol, a chafodd £10 miliwn ohono ei ddyrannu i'r 64 o glystyrau gofal sylfaenol i fuddsoddi yn eu blaenoriaethau lleol.)

## 2. Cynllunio ariannol a sefyllfa ariannol Byrddau Iechyd Lleol

Yn benodol mewn perthynas â byrddau iechyd lleol yn sicrhau cydbwysedd ariannol, yn eich tystiolaeth, gwnaethoch wahaniaethu rhwng y system gyfan a'r heriau sy'n wynebu byrddau iechyd unigol. O ran y pwynt olaf, nodwn y dyraniad refeniw ychwanegol o £68 miliwn i fynd i'r afael â'r gorwariant a ragwelwyd gan Fyrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn y flwyddyn ariannol bresennol. Nodwn y bydd yr arian hwn yn cael ei gadw'n ganolog o fewn prif grŵp gwariant Iechyd, Lles a Chwaraeon i wneud yn iawn am y diffygion ariannol a ragwelir.

Yn eich barn chi, er gwaetha'r pwysau yn y ddau fwrdd iechyd penodol hynny, yn ogystal â byrddau iechyd eraill, dylai'r cyhoeddiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru fel rhan o broses y gyllideb, ganiatáu system lle, erbyn diwedd y flwyddyn, rydych yn disgwyl i'r system gyfan gydbwyso. **Rydym yn awyddus i ddilyn y pwynt hwn i fyny gyda chi maes o law.**

O ran y gorwel cynllunio tair blynedd o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, credwn fod hwn yn offeryn defnyddiol i fyrddau iechyd lleol o ran cysylltu cynllunio strategol ac ariannol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod nifer o sefydliadau, gan gynnwys ABM a Chaerdydd a'r Fro, yn gweithredu ar sail cynllun IMT un flynedd gan eich bod yn teimlo na allwch gymeradwyo eu cynlluniau tair blynedd.

Yn seiliedig ar ffigurau ar 31 Awst, mae gan Fyrddau Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ac Aneurin Bevan ddiffygion diwedd blwyddyn a ragwelir o £20.1 miliwn a £19.1 miliwn yn y drefn honno. Ymddengys fod hyn yn cynrychioli her go iawn i gyflawni cydbwysedd ariannol diwedd y flwyddyn. **A ydych yn hyderus y gall y byrddau iechyd hyn fod mewn sefyllfa diwedd y flwyddyn cytbwys yn 2016-17 heb gymorth ariannol ychwanegol? A oes gennych bryderon ynghylch 2017-18 a'u sefyllfa ariannol hirdymor?**

## 3. Sefyllfa ariannol Llywodraeth Leol

Mae setliad llywodraeth leol dros dro 2017-18 wedi pennu cyfanswm arian refeniw llywodraeth leol ar gyfer 2017-18 o £4.107 biliwn, sef cynnydd o £3.8 miliwn ers 2016-17.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol hefyd wedi cyhoeddi bod £25 miliwn ychwanegol yn cael ei ddarparu i gydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol lleol cryf yn llwyddiant hirdymor GIG Cymru a'r pwysau cynyddol sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol.

Mewn perthynas â'r £25 miliwn ychwanegol hwn, mae'n arian heb ei neilltuo ar gyfer awdurdodau lleol. Nodwn eich tystiolaeth y bydd y defnydd hwn o arian gan awdurdodau lleol yn fater iddyn nhw ac nad ydych am gyfarwyddo eu gwariant heblaw am sicrhau bod gennym wasanaethau cymdeithasol cryf a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, **rydym yn awyddus i glywed mwy gennych am y mesurau monitro a gwerthuso sydd gennych ar waith i sicrhau bod y dyraniad ychwanegol yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a amlinellir gennych uchod**.

<u>Taliadau gofal cymdeithasol</u>

Nodwn fod y setliad llywodraeth leol yn cynnwys £4.5 miliwn i ariannu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r terfyn cyfalaf ar gyfer taliadau gofal preswyl o £24,000 i £30,000 i ddechrau ac yna i £50,000. Ymhellach, roedd y setliad hefyd yn darparu £0.3 miliwn i gyflwyno diystyriaeth lwyr o'r Pensiwn Anabledd Rhyfel wrth godi tâl am ofal cymdeithasol.

Mewn perthynas â'r taliadau am ofal preswyl, nodwyd gennych fod gwaith ymchwil a gomisiynwyd gennych wedi dangos bod hyd at 4,000 o breswylwyr cartrefi gofal sy'n talu cost lawn am eu gofal ar hyn o bryd ac y byddai cynyddu'r terfyn cyfalaf o £24,000 i £50,000 â photensial i fod o fudd i tua 1,000 o'r bobl hyn. Gwnaethoch hefyd ddatgan y byddai eich ymrwymiad i gynyddu'r terfyn i £30,000 o fis Ebrill y flwyddyn nesaf o fudd i tua 250 o bobl.

**Byddwn yn awyddus i ddilyn y mater hwn i fyny gyda chi pan fydd yn briodol yn y dyfodol er mwyn clywed mwy am gynnydd erbyn y targedau a ddisgwylir gennych.**

**Yn y cyfamser, byddem yn ddiolchgar am gael gwybodaeth gennych am eich amcangyfrifon o gostau blynyddol trothwy o £50,000.**

**Mewn perthynas â diystyru'r pensiwn anabledd rhyfel, faint o bobl rydych yn rhagweld a fydd yn debygol o gael budd o'r ddiystyriaeth honno?**

## 4. Blaenoriaethu gwariant

Y gronfa gofal canolraddol

Rydym yn croesawu'r buddsoddiad parhaus o £50 miliwn yn y gronfa gofal canolradd yn 2017-18 a'r dystiolaeth a ddarparwyd yn eich papur ynghylch y diwrnodau a arbedwyd a'r derbyniadau i'r ysbyty a gafodd eu hosgoi o ganlyniad i ddefnyddio'r gronfa. **A ydych yn gallu darparu manylion am yr allbynnau penodol a'r canlyniadau rydych yn disgwyl i gael eu cyflawni dros gyfnod y gyllideb nesaf yn seiliedig ar y buddsoddiad parhaus yn 2017-18?**

Roedd gennym ddiddordeb clywed tystiolaeth Mr Heaney am y trefniadau i gynyddu gwerthusiad y gronfa o eleni ymlaen. Dywedodd wrthym hefyd, ar ddiwedd pob chwarter, y byddwch yn ysgrifennu'n nôl i bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol gydag adborth, mewn ymateb, fel y gallwch rannu gwybodaeth ledled Cymru yn fwy doeth ac yn gyflymach er mwyn eich galluogi i fod yn llawer mwy effeithiol."

Rydym yn gefnogol iawn o unrhyw drefniadau i werthuso'n well a rhannu arfer da ledled Cymru. **Byddem yn falch o glywed gennych maes o law am y trefniadau newydd i rannu arfer da a pha mor effeithiol maent yn gweithio.**

Gofal Sylfaenol

Rydym yn croesawu cadarnhad gennych fod y buddsoddiad ychwanegol mewn gofal sylfaenol yn 2015-16 yn ymrwymiad rheolaidd. O ran y canlyniadau i'r buddsoddiad hwn, nodwyd gennych fod dros 240 o bobl ychwanegol wedi'u cyflogi o fewn y system gofal sylfaenol bellach o ganlyniad uniongyrchol i'r buddsoddiad hwn.

Roeddech yn gadarnhaol iawn ynghylch effeithiau'r buddsoddiad hwn ar glystyrau gofal sylfaenol yn benodol, a'r cyfleoedd a roddir i'r clystyrau i benderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer eu hardaloedd. Gwnaethoch ddweud eich bod wedi'u calonogi ynghylch y cynnydd a welwn yn y maes hwn a'ch bod yn disgwyl gweld mwy o welliant eto yn y ffordd y mae gofal sylfaenol yn gweithio ac yn darparu hyd yn oed fwy o wasanaethau.

**Gyda hynny mewn golwg, a allwch chi nodi'r allbynnau penodol a'r canlyniadau yr hoffech yn gweld yn cael eu cyflawni ar gyfer y buddsoddiad hwn yn 2017-18, ynghyd â'r trefniadau ar waith ar gyfer monitro cynnydd?**

Roedd gennym ddiddordeb clywed manylion y digwyddiad cenedlaethol ar ofal sylfaenol, a gafodd ei grybwyll gennych, i drafod y cynnydd a wnaed mewn clystyrau gofal sylfaenol. Unwaith eto, rydym yn gefnogol iawn o fesurau i wella'r gwaith o rannu dysg a phrofiad, a **byddai diddordeb gennym i glywed gennych ynghylch unrhyw fesurau eraill sydd gennych ar waith at y diben hwn**.

Plant

O ran ystyried anghenion penodol plant, nodwn yn eich tystiolaeth nad cynllunio ariannol yn unig yw hyn ond ei fod yn rhan o'r holl broses o gynllunio integredig. Gwnaethoch bwysleisio'r pwysigrwydd o allu dangos gwell canlyniadau i blant ar draws eich portffolio a gwnaethoch ddweud wrthym, ar draws Llywodraeth Cymru, pan wneir penderfyniadau, fod effaith y penderfyniadau hynny ar blant yn cael ei hystyried.

Er ein bod yn croesawu eich datganiadau, yn enwedig y pwyslais ar gyflawni canlyniadau i blant, credwn fod angen proses fwy ffurfiol er mwyn adlewyrchu'n well yr ymrwymiad deddfwriaethol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y Mesur Hawliau Plant. Felly, **gofynnwn i chi ystyried cynnal asesiad o effaith ar hawliau plant fel rhan o broses y gyllideb**.

Chwaraeon ac ymarfer corff

Nodwn yn eich tystiolaeth fod y rhan fwyaf o waith Llywodraeth Cymru ar chwaraeon yn cael ei wneud drwy Chwaraeon Cymru ac, o ganlyniad, maent yn

derbyn swm mawr o'r gyllideb chwaraeon. Nodwyd gennych y byddwch yn cytuno ar ddyraniad cyllideb Chwaraeon Cymru ar ôl i chi dderbyn ac ystyried adolygiad y cadeirydd.

Unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau, **byddai diddordeb gennym glywed gennych am fanylion dyraniadau'r gyllideb; y canlyniadau rydych yn disgwyl i gael eu cyflawni ar gyfer y buddsoddiad; a'r amserlen ar gyfer gwireddu'r canlyniadau hyn. Ymhellach, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau y byddwch yn cyhoeddi adolygiad y cadeirydd**.

Rydym hefyd yn cydnabod bod hyrwyddo iechyd a lles yn rôl sy'n cael ei gwneud ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, ac mae'r **gwaith ehangach o hyrwyddo iechyd cyhoeddus yn fater y byddwn yn dychwelyd ato**.

<u>Gwasanaethau iechyd meddwl</u>

Gwnaethoch gadarnhau y dylai'r arian a neilltuwyd ar gyfer 2017-18 fod o leiaf £20 miliwn, gan gynrychioli ychydig dros 10 y cant o gyfanswm dyraniad byrddau iechyd. Mae hyn yn ostyngiad bychan o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol o ran canrannau a chyfanswm a nodwyd yn erbyn iechyd meddwl, er nodwn yn eich tystiolaeth mai isafswm yw'r arian a neilltuwyd, swm a ddiogelir yn hytrach nag isafswm. **Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol cael datganiad yn cadarnhau gennych fod digon o arian wedi'i ddyrannu yn y maes hwn yn eich barn chi.**

Cawsom drafodaeth fer am y trefniadau sydd ar waith i fonitro'r gwaith penodol o gyflawni darpariaeth plant gan ofal sylfaenol, a nodwn yn eich tystiolaeth, rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mehefin 2016, daeth tua 2,200 o bobl ifanc drwy'r porth gofal sylfaenol. **Cynigiodd Dr Goodall roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y ffigurau hyn hyd at fis Medi, a byddem yn ddiolchgar i gael y wybodaeth hon.**

Yn fwy cyffredinol, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn hyderus bod digon o arian yn y gyllideb i gefnogi'r plant hynny nad oedd yn dod o dan feini prawf CAMHS ond bod angen rhagor o gefnogaeth arnynt nag sydd ar gael drwy wasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol. Dywedasoch mai'r her oedd sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n dda, a gwnaethoch gadarnhau bod hwn yn ymrwymiad gweinidogol yn ogystal ag ymrwymiad i'r gwasanaeth. Er ein bod yn

croesawu'ch datganiad, **mae hyn yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder i ni, ac yn un y byddwn am ddilyn i fyny gyda chi yn y dyfodol. Fodd bynnag, credwn fod rôl i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ysgogi'r agenda integreiddio yn y maes hwn fel nad yw plant a phobl ifanc sydd ag anghenion nad ydynt yn dod o dan feini prawf CAMHS yn syrthio drwy'r bylchau yn y system.**

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Croesawn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau cronfa flynyddol ychwanegol o £7.6 miliwn yn y maes rheolaidd hwn, yn ogystal â chynnydd pellach o £318,000 o gymorth ariannol rheolaidd[1] i weithwyr cefnogi sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n profi'r salwch meddwl mwyaf difrifol.

O ran cyrraedd targedau amseroedd aros CAMHS, rydym yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gennych yn ystod eich sesiwn dystiolaeth eich bod yn disgwyl i bob ardal bwrdd iechyd gydymffurfio o fewn y flwyddyn galendr nesaf ar gyfer y targedau newydd o 28 ac yna 26. **Byddwn yn dymuno dilyn y mater hwn i fyny gyda chi ar adeg briodol.**

## 5. Buddsoddi cyfalaf

Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys £245 miliwn o ddyraniadau cyfalaf ar gyfer 2017-18, sydd, y gwnaethoch nodi yn eich papur, yn gynnydd o dros £30 miliwn yn erbyn y llinell sylfaen cymorth ariannol rheolaidd.

Rydym yn cytuno â chi bod argaeledd arian cyfalaf yn lifer allweddol o ran trawsnewid gwasanaeth ar draws y sector, a gwyddom fod nifer o brosiectau uchelgeisiol yn mynd rhagddynt lle mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol, er enghraifft y Ganolfan Gofal Critigol Arbenigol yn Llanfrechfa.

Mae buddsoddiad cyfalaf yn faes cymhleth ac rydym yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o'ch cynlluniau yma. **Gwnaethoch gynnig rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni o ran sut rydych yn gweld y darlun cyfalaf yn symud ymlaen, a**

---

[1] Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, tystiolaeth i Bwyllgor CYPE

**byddem yn ddiolchgar i gael hyn. Gwnaethoch hefyd gynnig sesiwn i drafod gwariant cyfalaf yn fanylach. Unwaith eto hoffem dderbyn eich cynnig, a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân i drefnu.**

## 6. Effaith refferendwm yr UE

Buom yn trafod yn fras y goblygiadau i'r gwasanaeth iechyd yn sgil penderfyniad y DU i adael yr UE, a sut rydych wedi ystyried hyn yn eich cynllunio ariannol. Gwnaethoch gydnabod bod hon yn her sy'n wynebu pob llywodraeth yn y DU, ond nad ydych yn gallu gwneud llawer o waith cynllunio manwl ar hyn o bryd.

Yn amlwg, mae cyfnod o ansicrwydd o'n blaenau, nid dim ond i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ac nid dim ond yng Nghymru. Serch hynny, mae angen i ni fod yn hyderus bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru i gynllunio am unrhyw nifer o bosibiliadau yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â meysydd allweddol staffio, rheoleiddio ac ariannu. **Byddem yn ddiolchgar i gael sicrwydd pellach gennych ar y mater hwn.**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon